

The logo for WISERD, featuring the letters 'W/SERD' in white on a purple rectangular background. The 'W' and 'S' are connected by a diagonal slash.

W/SERD

Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac
Economaidd, Data a Dulliau Cymru

Wales Institute of Social and Economic
Research, Data and Methods

NEWYDDION

wiserd.ac.uk | Argraffiad 18 | Gorffennaf 2018

A photograph of a beach at sunset. In the foreground, several dark, rusted metal figures of people holding hands are arranged in a chain, standing on a wooden boardwalk. The background shows the ocean and a bright, hazy sky.

**Y gymdeithas sifil
Anghydraddoldeb
Y trydydd sector**



Croeso gan Gyfarwyddwr WISERD

Ddiwedd y llynedd gwelwyd nifer o gerrig milltir sylweddol yn nhaith WISERD tuag at gynyddu ansawdd a swm y gwaith ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt. Daeth cydweithwyr WISERD ynghyd yn y Senedd ym Mae Caerdydd i ddathlu pen-blwydd WISERD yn 10 oed. Roedd y pen-blwydd pwysig hwn yn nodi degawd o ddylanwadu ar bolisi a thrafodaeth, a gwnaethom fwynhau'r cyfle i ddathlu gyda rhai o'n rhanddeiliaid allweddol sydd wedi helpu i lywio ein cyfraniad i'r gwaith ymchwil hyd yn hyn.

Cafodd rai o gyraeddiadau WISERD hyd yn hyn eu tanlinellu gan Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a Lynne Neagle AC, a siaradodd yn y digwyddiad. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Athro Jennifer Rubin, Cadeirydd Gweithredol y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), a Dr David Blaney, Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), am eu cyfraniad parhaus i waith WISERD a'u geiriau caredig (gweler tudalen 9).

Gwnaethom hefyd lansio Cymru sy'n Newid: WISERD yn 10 Oed yn y digwyddiad yn y Senedd – cyhoeddiad newydd sy'n arddangos rhywfaint o'n hymchwil o'r deng mlynedd ddiwethaf ac sy'n rhoi mewnwelediad i rai o'n prosiectau cyfredol hefyd. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan: www.wiserd.ac.uk/cy.

Mae ein calendr digwyddiadau wedi bod yn brysurach nag erioed dros yr ychydig fisoedd diwethaf, gydag amrywiaeth o gynadleddau, seminarau a gweithdai ymarferol, sydd wedi rhoi cyfleoedd newydd i ni rannu ein gwaith ymchwil, cydweithredu gydag eraill a derbyn hyfforddiant pellach. Cynhadledd Flynyddol WISERD 2018 ym Mhrifysgol De Cymru oedd ein cynhadledd fwyaf hyd yn hyn. Bydd cynhadledd eleni ar y Gymdeithas Sifil a Chyfranogiad yn cael ei chynnal ym Mhrifysgol Aberystwyth ddydd Mercher 3 Gorffennaf a dydd Iau 4 Gorffennaf – rydym yn edrych ymlaen at eich gweld yno.

Gobeithiaf y byddwch chi'n mwynhau'r rhifyn hwn o Newyddion WISERD.

Yr Athro Ian Rees Jones
Cyfarwyddwr WISERD

Mae Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) yn sefydliad ymchwil gwyddorau cymdeithasol rhyngddisgyblaethol cenedlaethol. Rydym wedi ein dynodi'n ganolfan ymchwil genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Gan ddefnyddio dulliau arloesol, mae ein hymchwil yn cwmpasu economeg, cymdeithaseg, daearyddiaeth a gwyddoniaeth wleidyddol.

Rydym yn gyd-fenter rhwng prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe – yn cydweithio i wella safon a maint ymchwil y gwyddorau cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt. Mae ein gwaith ymchwil yn effeithio ar newid drwy ddylanwadu ar ddatblygiad polisi ac arferion ar draws ystod o sectorau. Mae WISERD yn gartref i Ganolfan Ymchwil Gymdeithasol Sifil WISERD ar draws y DU, buddsoddiad mawr gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), a nifer o grantiau ymchwil mawr eraill.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae WISERD yn cynnwys Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, ac yno mae'n lletya prosiectau GWLEDIG-BYD-EANG, IMAJINE a ROBUST a ariennir gan yr UE. Mae WISERD hefyd yn gartref i Ganolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADR Cymru) – cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Ysgol Meddygaeth Prifysgol Abertawe a WISERD ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ADR Cymru yn rhan o ADR UK (Ymchwil Data Gweinyddol y DU) a ariennir gan yr ESRC.

Cysylltu â ni

☎ 029 2087 9338

🌐 www.wiserd.ac.uk/cy

🐦 @WISERDNews

📘 /wiserdnews

Cynnwys:



Prosiectau a chyllid newydd

Cyfres o lyfrau newydd gyda Policy Press	05
Cymrodoriaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru	05

Meithrin gallu ar gyfer gwaith ymchwil

Ymchwilwyr WISERD yn diogelu lleoedd yn GW4 Crucible 2019	06
Cynhadledd Flynyddol WISERD	07
WISERD yn 10 oed	08
Lansio Rhwydwaith Ymchwil Gwleidyddiaeth a Llywodraethu WISERD	10
Gŵyl Gwyddorau Cymdeithasol yr ESRC 2018	11
WISERD yn cynnal Anthropolegau Cymdeithasol y Cymry: Y Gorffennol a'r Presennol	12
WISERD researcher awarded Learned Society of Wales medal	13



Ymestyn gwaith ymchwil llesiant

A yw bod yn grefyddol yn gwella boddhad bywyd?	14
Canfyddiadau o arolwg IDEAL	15

Gweithio gyda'r trydydd sector

THyfforddi Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru (EYST) ar ddulliau ymchwil gymunedol	16
Interniaethau i fyfyrwyr gyda'r WCVA a Llywodraeth Cymru	17
Tramiau, camlesi a safbwyntiau rhyngwladol ar ymchwil trydydd sector	18
gofod3 2019	19



Canolbwyntio ar dai

Casglu data digartrefedd yng Nghymru	20
--------------------------------------	----

Deall y gymdeithas sifil

Gweithredu cymdeithasol fel llwybr at y blwch pleidleisio:	
gwirfoddoli a'r ganran sy'n pleidleisio	21
A yw ofn trosedd yn effeithio ar gyfranogiad cymdeithasol?	22
Taith Dywys Hudol 'datganoli' yn Lloegr	23



Ymchwilio i anghydraddoldeb

Sefydliad undebau llafur byd-eang yn cydnabod effaith gwaith ymchwil WISERD	24
Trefnu undebau llafur drwy'r cyfryngau cymdeithasol	24
Deall profiadau gweithwyr dillad	25
Dylai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin roi dyfodol i Gymru – nid siec yn unig	26
Ffenomenon gynyddol masnachu priodferched	27

Canolbwyntio ar yr economi

Arloesedd cymdeithasol yn yr economi sylfaenol	28
Sut gallai bargeinion dinesig wneud gwahaniaeth	28

Exploring education

WISERD yn cyflwyno'r gwaith ymchwil diweddaraf ar ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru	29
Mae plentynod yng Nghymru yn newid, mae'n rhaid i wasanaethau yng Nghymru newid hefyd	30

Deall y cenedlaethau

Gwaith ymchwil yn cysylltu dadleuon teuluol ag ymgysylltiad dinesig	31
Sut mae gofal plant gan neiniau a theidiau yn effeithio ar y plentyn?	32



NEWYDDION

PROSIECTAU A CHYLLID NEWYDD

Prosiectau a chyllid

Rhoddwyd cymrodoriaeth i Samantha Saville ym Mhrifysgol Aberystwyth gan **Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru yr ESRC**.

Mae Rhys Davies ym Mhrifysgol Caerdydd yn rhan o **Ymchwil Data Gweinyddol y DU (ADR UK)**, a gefnogir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC).

Mae'r Athro Sally Power a Chris Taylor ym Mhrifysgol Caerdydd wedi diogelu cyllid oddi wrth Gronfa John Fell i ymchwilio i'r **'Gwahaniaethau mewn cyfraddau gwaharddiadau parhaol o ysgolion ar draws y DU'**.


Mae Dr Rhian Barrance ym Mhrifysgol Caerdydd wedi bod yn gweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru ar **Adolygiad Tystiolaeth** ac yn darparu cymorth ymchwil ar gyfer prosiect **'Beth nesaf?'** y Comisiynydd.

Mae Dr Stuart Fox ym Mhrifysgol Caerdydd wedi ymgymryd â Chymrodoriaeth Deall y Gymdeithas yn archwilio **'Gweithredu cymdeithasol fel llwybr i'r blwch pleidleisio: Gall gwirfoddoli leihau anghydraddoldeb yn y ganran sy'n pleidleisio?'**

Mae'r Athro Kevin Morgan, yr Athro Ian Rees Jones a Dr Eva Elliot ym Mhrifysgol Caerdydd wedi bod yn archwilio **'Arloesedd Cymdeithasol yn yr Economi Sylfaenol: hyrwyddo twf cynhwysol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd'**, prosiect cyflymu effaith yr ESRC.

Mae'r Athro Alan Felstead a Rhys Davies ym Mhrifysgol Caerdydd yn rhan o brosiect yr ESRC sy'n cynnwys **dadansoddi ac adrodd yng Nghymru yn deillio o Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth 2017**.

Gydag arian gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, rydym yn sefydlu Labordy Data Addysg WISERD ar hyn o bryd. Nod y prosiect yw creu tystiolaeth o safon uchel sy'n seiliedig ar ymchwil i helpu i lywio a herio ein dealltwriaeth o brosesau a deilliannau addysgol er mwyn cefnogi'r sector addysg yng Nghymru i gyflawni nodau Addysg yng Nghymru: ein cenhadaeth genedlaethol 2017-2021. Caiff y Labordy ei arwain gan yr Athro Chris Taylor a bydd yn cydweithio'n agos ag Ymchwil Data Gweinyddol y DU (ADR UK).



Cyfres o lyfrau newydd gyda Policy Press

Mae 'Civil Society and Social Change' yn gyfres o lyfrau amserol a phwysig gan WISERD, a gyhoeddir gan Policy Press. Golygyddion y gyfres yw'r Athro Ian Rees Jones, yr Athro Michael Woods a'r Athro Paul Chaney.

Yn amlddisgyblaethol o ran ei natur, mae'r gyfres yn tynnu ynghyd safbwyntiau critigol gan academyddion blaenllaw ym meysydd cymdeithaseg, economeg, gwyddoniaeth wleidyddol, polisi cyhoeddus, addysg, hanes, y gyfraith a daearyddiaeth. Mae'n ehangu gwybodaeth, yn cynnig critigoldeb newydd, ac yn rhoi set wreiddiol o safbwyntiau ar yr heriau sy'n wynebu'r gymdeithas sifil yn yr unfed ganrif ar hugain. Bydd y gyfres yn apelio at gynulleidfa amrywiol o academyddion, ymarferwyr a gwneuthurwyr polisi ac yn cyflwyno canfyddiadau empirig cyfoethog a llunio theori, yn seiliedig ar waith ymchwil cadarn sy'n berthnasol i bolisi yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae 'Civil Society and Social Change' yn gyfres o lyfrau amserol a phwysig gan WISERD, a gyhoeddir gan Policy Press. Golygyddion y gyfres yw'r Athro Ian Rees Jones, yr Athro Michael Woods a'r Athro Paul Chaney.

Dr Esther Muddiman yw'r cydymaith ymchwil sy'n goruchwyllo datblygiad y gyfres. Dywedodd Dr Muddiman: "Rwyf wir yn mwynhau cymryd rhan yn y

gwaith o ysgrifennu a golygu'r gyfres newydd hon, a chael y cyfle i ddatblygu teitlau pellach i'w cyhoeddi."

Mae'r llyfrau sydd ar y gweill yn cynnwys:

Labour, love and welfare: New sites of practice within civil society
Dr Helen Blakely

Age of uncertainty: Institutions, governance and the existential challenge facing civil society
Yr Athro Paul Chaney a'r Athro Ian Rees Jones

Civil society as a mode of governance: between self-emancipation and self-responsibilization
Yr Athro Bob Jessop

Governance, shadow states and the positioning of civil society in processes of devolution
Yr Athro Martin Jones a Dr David Beel

Trust-transparency paradoxes: multi-level governance in the UK, France and Germany
Dr Ian Stafford, yr Athro Alistair Cole a Dr Dominic Heinz

Cymrodoriaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhodddwyd cymrodoriaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilydd WISERD, Dr David Dallimore, o Brifysgol Bangor. Ers dechrau'r flwyddyn, mae wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad i ddarparu gwybodaeth am addysg a gofal plentyndod cynnar.

Mae polisi yn y maes hwn wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diweddar mewn ymateb i'r cynnydd mewn menywod yn y llafurlu, tlodi teuluol, a thystiolaeth ryngwladol o bwysigrwydd datblygiadol y blynyddoedd cynnar. Yn gynyddol, mae diddordeb mewn estyniad pellach yng Nghymru drwy greu system fwy integredig a chynhwysol o addysg a gofal plentyndod cynnar, ond mae prinder tystiolaeth fanwl ar sut y gallai hyn edrych, sut y gellid ei gyflawni, a goblygiadau dulliau gweithredu gwahanol.

Bydd y gymrodoriaeth yn llunio nifer o nodiadau briffio i alluogi Aelodau'r Cynulliad i gyfrannu at drafodaethau, craffu a dadleuon yn y maes hwn gyda'r fantais o dystiolaeth glir a chyfoes.



Ymchwilwyr WISERD yn sicrhau lleoedd yn GW4 Crucible 2019

Mae tri o ymchwilwyr WISERD – Constantino Dumangane, Wil Chivers ac Ian Thomas – wedi bod yn llwyddiannus o ran diogelu lleoedd ar GW4 Crucible 2019.

Mae'r GW4 Crucible yn rhaglen flynyddol gystadleuol sy'n ceisio hyrwyddo cydweithredu rhyngddisgyblaethol rhwng ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa o brifysgolion Caerdydd, Bryste, Caerfaddon a Chaerwysg.

Mae rhaglen eleni yn cynnwys tri labordy preswyl dau ddiwrnod o hyd. Bydd 30 o 'grwsibleion' yn cael y cyfle i gydweithio i ystyried ffyrdd creadigol ac arloesol o ddatblygu effaith gwaith

ymchwil, gwella rhwydweithiau proffesiynol a gwelededd, a myfyrio ar bosibiliadau ar gyfer datblygu gyrfa.

Mae pob criwsibl yn cael ei drefnu o amgylch thema benodol sy'n cyfateb â meysydd blaenoriaeth cyfredol ar gyfer datblygu ymchwil. Thema eleni yw 'arloesedd digidol' ac mae'r garfan o ymchwilwyr yn amrywio'n helaeth, gan gynrychioli disgyblaethau yn cynnwys y gwyddorau cymdeithasol a gwleidyddol, daearyddiaeth, seicoleg,

biowyddoniaeth, iechyd a meddygaeth, ffiseg, cyfrifiadureg, a pheirianneg.

Gwnaeth nifer o siaradwyr uchel eu proffil fynychu'r labordy preswyl cyntaf o brifysgolion GW4 a thu hwnt, a gynigiodd gyngor a mewnwelediad arbenigol i ble a sut y gallai ymchwilwyr ddylanwadu ar wneuthurwyr polisi, sut i gyfathrebu gwaith ymchwil yn effeithiol, a'r ffordd gadarnhaol y dylai ymchwilwyr ystyried eu gyrfa oedd.

Credyd llun: GW4



Cynhadledd Flynyddol WISERD 2018


Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol WISERD y llynedd ym Mhrifysgol De Cymru, gan archwilio'r thema 'Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac anghyfiawnder'.

Roeddem yn falch o groesawu Auriol Miller, Cyfarwyddwr y Sefydliad Materion Cymreig, a'r Athro David Gordon, Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Tlodi Rhyngwladol Townsend a Chyfarwyddwr Sefydliad Tlodi Bryste ym Mhrifysgol Bryste, i fod yn brif siaradwyr.

Mae Cyd-gyfarwyddwr WISERD, yr Athro Gary Higgs, yn Gyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ym Mhrifysgol De Cymru. Dywedodd yr Athro Higgs: "Gwnaeth canolbwynt cynhadledd 2018, 'Mynd

i'r afael ag anghydraddoldebau ac anghyfiawnder', arwain at drafodaethau bywiog ar draws nifer o feysydd thematig gwahanol,

megis tai, addysg, iechyd, trosedd a pholisi cymdeithasol; yn ddi-os wedi'u hysgogi gan 'ddatblygiadau' gwleidyddol parhaus amrywiol."



Prif siaradwr, yr Athro David Gordon, Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Tlodi Rhyngwladol Townsend, Prifysgol Bryste



Llongyfarchiadau i Kirsty Anderson o Brifysgol Caerdydd, a enillodd Wobr Cymdeithas Ddysgedig Cymru a Gwobr Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru yr ESRC eleni ar gyfer y poster gorau gan fyfyrwr. Ceir llun o Kirsty ar y chwith yn derbyn ei thystysgrif oddi wrth Martin Pollard, Prif Weithredwr Cymdeithas Ddysgedig Cymru.



Llongyfarchiadau i fyfyrwr PhD Prifysgol Caerdydd Amy Sanders (yr ail o'r chwith yn y llun), a enillodd gystadleuaeth ymgysylltiad ac effaith tair munud (3MEI) eleni. Rhoddwyd y wobr i Amy gan Gyfarwyddwr WISERD, yr Athro Ian Rees Jones, Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, Steven Marshall, a Chyfarwyddwr Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru, yr Athro David James.

WISERD yn 10 oed

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae WISERD wedi dathlu degawd o ddylanwadu ar bolisiâu a thrafodaethau. Er mwyn nodi'r garreg filltir bwysig hon, gwahoddwyd amrywiaeth o randdeiliaid allanol i ymuno â chyn-gydweithwyr a chydweithwyr presennol ar gyfer digwyddiad WISERD yn 10 oed, yn y Senedd ym Mae Caerdydd.

Roedd y digwyddiad yn nodi lansiad Cymru sy'n Newid: WISERD yn 10 Oed, cyhoeddiad newydd sy'n arddangos dim ond peth o ymchwil WISERD sydd wedi'i chyflawni dros y deng mlynedd ddiwethaf. Mae hefyd yn rhoi mewnwelediad i rai o'r prosiectau sy'n mynd rhagddynt a fydd yn parhau i fynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf dybryd yn y gymdeithas.

Mae gwaith WISERD wedi cael effaith fawr ar lunio dyfodol y genedl, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella bywydau pobl sy'n byw yma, yn ogystal â chyfrannu at ymchwil ryngwladol. Dros y degawd diwethaf, bu datblygiadau cyfansoddiadol a gwleidyddol mawr yng Nghymru ac mae gwaith WISERD wedi bod yn cynnig tystiolaeth newydd ac amserol am amrywiaeth eang o faterion polisi.



Cymru sy'n Newid: WISERD yn 10 oed



Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn siarad yn nigwyddiad WISERD yn 10 Oed



MEITHRIN GALLU AR GYFER GWAITH YMCHWIL

NEWYDDION

Dros y degawd diwethaf, bu datblygiadau cyfansoddiadol a gwleidyddol mawr yng Nghymru ac mae gwaith WISERD wedi bod yn cynnig tystiolaeth newydd ac amserol am amrywiaeth eang o faterion polisi. Mae WISERD wedi denu mwy na £27 miliwn o gyllid i Gymru gan ystod eang o ffynonellau, ac mae bellach yn edrych i'r deng mlynedd nesaf.

Meddai'r Athro Ian Rees Jones, Cyfarwyddwr WISERD: "Rydym wrth ein bodd yn dathlu degawd o ymchwil sy'n bwysig ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Fel rhan o bartneriaeth gydweithredol o bum prifysgol yng Nghymru a rhai eraill yn y DU ac Ewrop, rydym wedi casglu ein holl arbenigeddau ynghyd er mwyn gwneud ymchwil arloesol, sy'n berthnasol i bolisiau ac yn seiliedig ar dystiolaeth, ynghlŷn ag amrywiaeth o heriau cymdeithasol ac economaidd.

"Mae gwaith WISERD yn adlewyrchu safle Cymru fel gwlad ddatganoledig sy'n gweithredu mewn cyd-destun byd-eang. Mae ein gwaith ymchwil wedi helpu gwneuthurwyr polisiau i fynd i'r afael ag amrywiaeth o heriau. Mae'r materion hyn yn cynnwys anghenion addysgol pobl ifanc, cynaliadwydd cenedlaethau'r dyfodol, newidiadau yn y farchnad lafur, gofal cymdeithasol, tai, anghenion yr henoed, tlodi, anghydraddoldeb ac ymddieithrio gwleidyddol yng Nghymru ôl-ddiwydiannol.

"O fewn degawd, rydym wedi meithrin cysylltiadau rhyngwladol cryf sy'n sbarduno syniadau newydd ac yn rhoi sail o arbenigedd ar gyfer mynd i'r afael â heriau lleol a byd-eang. Rydym mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â heriau newidiol y dyfodol dros y deng mlynedd nesaf, gyda chymorth ein prifysgolion, Llywodraeth Cymru a'r ESRC."

Meddai Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

"Llongyfarchiadau i WISERD ar gyrraedd ei ddengmlwyddiant. Mae'n hanfodol i Gymru fod â seilwaith ymchwil cryf, sy'n cynnig dadansoddiadau craff a diddorol."

"Mae ymchwil WISERD a'r data a gynhyrchir yn hynod werthfawr am eu bod yn rhoi dealltwriaeth fanwl i ni o gymdeithas sifil, ac yn ein helpu i ddod o hyd i atebion sy'n ein galluogi, drwy wella ein dulliau, i ddeall effaith ein penderfyniadau. Bydd hyn yn ei dro yn ein helpu i wneud yn siŋr ein bod yn cyflawni'r hyn sydd ei angen ar bobl Cymru."

Dywedodd Jennifer Rubin, Cadeirydd Gweithredol y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC): "Rwy'n falch iawn o waith yr ESRC gyda WISERD, ac mae'n bleser dathlu ei ddengmlwyddiant. Mae'r sefydliad yn parhau i gynnal prosiectau ESRC sy'n cael effaith, gan gynnwys Canolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil

WISERD, sy'n gweithredu ledled y DU. Mae WISERD yn dangos pa mor dreiddgar a rhagorol yw'r gwaith ymchwil cydweithredol yng Nghymru, sy'n arwain at ymchwil gwyddorau cymdeithasol gyson sy'n dwyn canlyniadau ar lefel genedlaethol a rhyngwladol."

Dywedodd Dr David Blaney, Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC): "Rydym wedi bod wrth ein bodd i weld WISERD yn datblygu dros y degawd diwethaf, ar ôl buddsoddi ynddo o'r dechrau pan gafodd ei sefydlu. Mae WISERD wedi mynd o nerth i nerth ac erbyn hyn mae wedi ennill ei blwyf fel ffynhonnell o dystiolaeth ymchwil annibynnol sydd â hygyrdd ar lefel rhyngwladol yng Nghymru a dros Gymru ac sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl Cymru. Llongyfarchiadau, WISERD, ar y deng mlynedd gyntaf, a dymuniadau gorau ar gyfer y deng mlynedd nesaf."



Cyfarwyddwr WISERD, yr Athro Ian Rees Jones, yn siarad yn nigwyddiad WISERD yn 10 Oed



Cyfarwyddwyr WISERD o'r gorffennol a'r presennol



Cyfarwyddwr WISERD a chyd-gyfarwyddwyr o'n pum prifysgolartner

Lansio Rhwydwaith Ymchwil Gwleidyddiaeth a Llywodraethu WISERD

Cafodd Rhwydwaith Ymchwil Gwleidyddiaeth a Llywodraethu WISERD ei lansio ym mis Medi 2018 yn Abertawe. Bydd y rhwydwaith amlddisgyblaethol hwn yn tynnu ynghyd ysgolheigion sy'n cyflawni ac yn cyhoeddi gwaith ymchwil sy'n canolbwyntio ar wleidyddiaeth a llywodraethu Cymru ac sy'n dod o bum prifysgol bartner WISERD. Caiff y rhwydwaith ei arwain ar y cyd gan Dr Matthew Wall a Dr Bettina Petersohn o Adran Astudiaethau Gwleidyddol a Diwylliannol Prifysgol Abertawe.

Bydd gweithgareddau'r rhwydwaith yn y dyfodol yn cynnwys: datblygu ymwybyddiaeth o brosiectau a chynlluniau ymchwil ar draws sefydliadau'r aelodau, nodi synergedd a chydweithrediadau ymhlith aelodau'r rhwydwaith, nodi cyfleoedd ar gyfer cynigion cyllido cydweithredol ymhlith aelodau'r rhwydwaith, a chynorthwyo gyda drafftio cynigion cyllido. Bydd y rhwydwaith yn rhannu ei waith drwy bapurau a phaneli cynhadledd, gan gynnwys yng Nghynhadledd Flynyddol WISERD.

Dywedodd yr Athro Paul Chaney, Cyd-gyfarwyddwr WISERD: "Mae lansio'r rhwydwaith yn ddatblygiad cyffrous gyda photensial cryf i gysylltu arbenigwyr blaenllaw sy'n gweithio ar faterion gwleidyddiaeth a llywodraethu yng Nghymru a thu hwnt – ac i symud gwaith ymchwil yn ei flaen a fydd yn cael effaith wirioneddol ar ysgolheictod, polisi a bywyd cyhoeddus." Ychwanegodd Dr Wall a Dr Petersohn: "Roedd y digwyddiad lansio yn fan dechrau ardderchog tuag at yr hyn rydym yn anelu at ei gyflawni gyda'r rhwydwaith ymchwil hwn.

Daeth â diddordebau ymchwil sy'n gorgyffwrdd i'r golwg ymhlith aelodau'r rhwydwaith a sbardunodd drafodaethau ynglŷn â chydweithrediadau posibl rhwng ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa ac ymchwilwyr mwy profiadol." Am ragor o wybodaeth ac i ymuno â'r rhwydwaith, ewch i www.wiserd.ac.uk/cy/ymchwil

Gwnaeth y Rhwydwaith Ymchwil Gwleidyddiaeth a Llywodraethu gynnal digwyddiad ym mis Mai eleni, mewn partneriaeth â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Gwnaeth *Polisi a Gwleidyddiaeth yng Nghymru mewn Cyfnod heb ei Debyg o'r Blaen* gynneg cyfle i drafod cyfleoedd ar gyfer polisi a gwleidyddiaeth Cymru yn y cyd-destun ansicr presennol.



Gŵyl Gwyddorau Cymdeithasol yr ESRC 2018

O rannu ein canfyddiadau ymchwil diweddarach a chynnal trafodaethau panel arbenigol, i ddarparu gweithdai ymarferol a chyfleoedd rhwydweithio, cynhaliodd WISERD bedwar digwyddiad fel rhan o Wyl Gwyddorau Cymdeithasol y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) 2018.



ESRC is part of UK Research and Innovation

Gwnaethom ddechrau'r wythnos drwy ymweld ag ysgol uwchradd leol a rhannu rhai o'r canfyddiadau diweddaraf o'n hastudiaeth hydredol aml-garfan Addysg WISERD gyda phobl ifanc ledled Cymru. Mae'r astudiaeth wedi datgelu rhai canfyddiadau diddorol yn ddiweddar ynglyn â pha rinweddau mae pobl ifanc yn eu hystyried sydd bwysicaf mewn ffrind delfrydol.

Gwnaeth y sesiwn ryngweithiol hon ddarparu cyflwyniad i'r dulliau mae gwyddonwyr cymdeithasol yn eu defnyddio a gwnaeth y myfyrwyr feithrin mewnwelediad defnyddiol o sut mae data arolwg yn cael ei ddadansoddi. Y diwrnod canlynol, gwnaeth cydweithwyr ymuno â ni o'r sector gwirfoddol a sefydliadau cymdeithas sifil, ynghyd â gwneuthurwyr polisi a chyd-ymchwilwyr, ar gyfer sesiwn ymarferol ar sut i ddefnyddio Porth Data WISERD ar gyfer gwaith ymchwil cymdeithas sifil.

Mae Porth Data WISERD yn offeryn am ddim a ddatblygwyd gan ymchwilwyr WISERD sy'n caniatáu i chi ddarganfod, mapio, dadansoddi a chymharu data cymdeithasol, demograffig ac economaidd yn ymwneud â Chymru. Rhoddwyd arddangosiad byw i gyfranogwyr o brif swyddogaethau'r Porth Data, cyn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithdy strwythuredig, yn holi a mapio nifer o setiau

data eilaidd o dan arweiniad arbenigol ein hymchwilwyr. Daeth y sesiwn i ben gyda chyfranogwyr yn darparu rhywfaint o adborth defnyddiol a fydd bellach yn llywio datblygiad a gwelliannau i'r Porth Data yn y dyfodol.

Gwnaeth ein digwyddiad nesaf ddenu ymchwilwyr WISERD o Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Roehampton i Gaerdydd, lle y gwnaeth amrywiaeth o sefydliadau ymuno â nhw, gan gynnwys cynrychiolwyr trydydd sector, i rannu eu gwaith ymchwil ar sut mae mudwyr Ewropeaidd yn cyfrannu at y gymdeithas sifil yng Nghymru.

Mae'r prosiect ymchwil hwn yn archwilio sut mae cymryd rhan mewn cymdeithas sifil yn effeithio ar yr ymdeimlad o berthyn ymhlith mudwyr. Gwnaeth y digwyddiad ddod ag amrywiaeth o randdeiliaid ynghyd i drafod y gwersi o'r gwaith ymchwil hwn, a sut y gellid defnyddio'r wybodaeth hon i lywio polisiâu ac arferion. Daeth y digwyddiad hwn i ben gyda thrafodaeth panel a sesiwn cwestiwn ac ateb lle y gwnaeth ymarferwyr siarad am eu profiadau o fudo a chymdeithas sifil yr UE, gan ganolbwyntio ar brofiadau, arferion a heriau cyffredin.

Cafodd ein digwyddiad ESRC olaf ei drefnu mewn partneriaeth â TUC Cymru a chafodd ei gynnal yn adeilad Unite yng Nghaerdydd, lle y gwnaeth swyddogion undebau llafur ymuno â ni.

Gwnaeth ymchwilwyr WISERD rannu mewnwelediad o'n dadansoddiad o ymgyrchoedd undebau llafur diweddar, sydd wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i rannu eu neges, gan gynnwys ymgyrch #McStrike. Roedd y digwyddiad yn anelu at ddatblygu dealltwriaeth cyfranogwyr o'r defnydd strategol o'r cyfryngau cymdeithasol wrth drefnu undebau llafur.

Cynhelir Gŵyl Gwyddorau Cymdeithasol ESRC eleni rhwng 2 a 9 Tachwedd gyda digwyddiadau ledled y DU. Mae'r wyl yn anelu at archwilio'r ffyrdd y mae'r gwyddorau cymdeithasol yn effeithio bywyd bob dydd pobl o bob oed a chefnidir.



Gwnaeth disgyblion gymryd rhan mewn cwis yn y digwyddiad ysgol

WISERD yn cynnal Anthropolegau Cymdeithasol y Cymry: Y Gorffennol a'r Presennol

Roedd Anthropolegau Cymdeithasol y Cymry: Y Gorffennol a'r Presennol yn edrych ar ddatblygiad anthropoleg gymdeithasol yng Nghymru o safbwyntiau ysgolheictod cenedlaethol ac ymgysylltu rhyngwladol. Daeth y digwyddiad ag academyddion a'r rheiny sy'n ymddiddori yn hanes Cymru, tarddiad a datblygiad Cymru gyfoes, ac astudiaethau cymunedol at ei gilydd.



Dr Robin Mann (Prifysgol Bangor) yn cyflwyno yn y digwyddiad

Traddodwyd y ddarlith gyhoeddus, a gynhaliwyd ym Mhrif Adeilad y Brifysgol gyda'r nos, gan yr Athro Fonesig Marilyn Strathern, FBA a Chymrawd Anrhydeddus, Cymdeithas Ddysgedig Cymru (Prifysgol Caergrawnt), ar *'Iaith Perthynas: Ymrwymiad Anthropoleg i Gymariaethau'*.

Dechreuodd y symposiwm undydd drwy ystyried proto-anthropoleg Gerallt Gymro ac aeth ymlaen i olrhain ymddangosiad math penodol o anthropoleg gymdeithasol Gymreig. Ymddangosodd diwylliant gwerin a thraddodiadau llafur, iaith a hunaniaeth, a cherddoriaeth a chrefydd fel themâu pwysig drwy gydol y drafodaeth ar anthropoleg gymdeithasol Cymru yn y gorffennol. Bu'r symposiwm hefyd yn edrych ar rôl ysgolheigion Cymru, megis Iorwerth C. Peate, William Jones ac Alwyn D. Rees.

I ddilyn hyn, cafwyd ystyriaeth o anthropoleg gymdeithasol fodern a chyfoes yng Nghymru, lle defnyddiwyd astudiaethau cymunedol i edrych ar faterion yn ymwneud ag alltudiaeth, llafur a lles, ac iaith a hunaniaeth. Daeth y symposiwm i ben gyda'r prif gyflwyniad ar ddosbarth, cymuned, anheddiad a symudedd yn ne Cymru ddiwydiannol ac ôl-ddiwydiannol gan yr Athro Chris Hann, anthropolegydd Cymreig sydd bellach yn Gyfarwyddwr Sefydliad Max Planck ar gyfer Anthropoleg Gymdeithasol yn Halle yn yr Almaen.

Cynullwyd y symposiwm gan yr Athro Emeritws W. John Morgan o WISERD. Dywedodd: "Mae anthropoleg gymdeithasol y Cymry wedi'i hesgeuluso ers blyneddau lawer, ynghyd â chyfraniad academyddion o Gymru i'r pwnc yn fwy cyffredinol. Bu'r papurau rhagorol rydym wedi'u clywed yn ailedrych ar yr hyn a wnaed yn y

gorffennol, gan ddangos yr hyn sy'n bosibl nawr ac yn y dyfodol.

"Gobeithiaf y bydd y symposiwm â'i ddeiliant ysgolheigaidd yn adfywio ymchwil ac addysgu anthropolegol yng Nghymru, gan gynnwys cymariaethau gyda diwylliannau a chymunedau eraill." Disgrifiodd yr Athro Fonesig Marilyn Strathern, yr oedd ei darlith yn pwysleisio'r thema hon, y symposiwm fel 'gorchest!'.

Caiff papurau'r symposiwm, a olygir gan W. John Morgan a Fiona Bowie, eu cyhoeddi yn 'Country Series' y Sefydliad Anthropolegol Brenhinol (Prifysgol Rhydychen) gan Sean Kingston Publishing, Llundain.

Ymchwilydd WISERD yn ennill medal Cymdeithas Ddysgedig Cymru

Mae Dr Stuart Fox wedi ennill medal Dillwyn ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru. Maen un o dri ymchwilydd o Brifysgol Caerdydd i dderbyn gwobr am gydnabyddiaeth o waith ymchwil rhagorol ar ddechrau gyrfa.

Dyfarnwyd y medalau mewn seremoni i ddathlu llwyddiannau'r byd academiaidd ar 22 Mai yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd. Crëwyd y medalau i ysbrydoli a chydabod llwyddiant etifeddiaeth Cymru, wrth ddathlu ymchwilwyr rhagorol yr oes sydd ohoni.

Dyfarnwyd y fedal i Dr Fox am ei astudiaeth o agweddau ac ymddygiad gwleidyddol a dinesig sy'n defnyddio

arolygon cymdeithasol a dulliau ymchwil meintiol. Mae ei waith wedi ystyried ymgysylltu gwleidyddol ymhlith pobl ifanc, yn benodol yn ystod Refferendwm yr UE a Brexit, ac etholiad cyffredinol 2017.

Mae ei waith diweddaraf hefyd wedi edrych ar wirfoddoli ymysg pobl ifanc ac, yn benodol, a allai hyn helpu i annog mwy o bobl ifanc i ymddiddori mewn gwleidyddiaeth a lleihau anghydraddoldeb yn y

ganran sy'n pleidleisio. Mae hefyd wedi gweithio gyda Grŵp Gorffen a Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyllid gwirfoddoli.

Wrth dderbyn y wobwr, dywedodd Dr Fox: "Gall bywyd ymchwilydd ar ddechrau ei yrfa fod yn hynod heriol ac anwadal, ac mae mor braf gweld gwaith mor galed yn cael cydnabyddiaeth. Rwy'n ddiolchgar dros ben i fy nghydweithwyr am fy enwebu a chynnig cymorth ac arweiniad amhrisiadwy drwy gydol fy ngyrfa academiaidd. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda nhw er mwyn helpu i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr cymdeithasol yng Nghymru."



Medal Dillwyn Cymdeithas Ddysgedig Cymru



Dr Stuart Foz yn derbyn ei fedal yn y seremoni wobrwyo

A yw bod yn grefyddol yn gwella boddhad bywyd?

Drwy dyfu i fyny fel Cristion, gwnes i ddarganfod pan oedd bywyd yn mynd yn anodd y gallwn bwysu ar fy ffydd i ddod o hyd i heddwch a bodlonrwydd, gobaith a llawenydd. Pan ddechreuais fy PhD yn edrych ar lesiant goddrychol, h.y. hapusrwydd, bodlonrwydd bywyd, iechyd meddwl ac ati, ni allwn golli'r cyfle i edrych ar sut mae crefydd wir yn effeithio ar lesiant.

Mae ymchwilwyr wedi bod yn edrych ar effeithiau crefydd ar lesiant goddrychol ers nifer o flynyddoedd. Mae'r ymchwil hon yn dueddol o ganfod bod gan bobl grefyddol fwy o lesiant na'r rhai heb grefydd (neu'r rhai sy'n llai gweithredol o ran eu crefydd). Fy mwriad oedd profi'r canfyddiadau hyn yn y DU, gan edrych ar ai crefydd ei hun sy'n rhoi hwb i lesiant neu a yw crefydd yn gwella agweddau eraill ar fywyd sy'n effeithio ar lesiant.

Roedd y fethodoleg a ddefnyddiais yn modelu hafaliad strwythurol, gan edrych ar effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol crefyddoldeb ar lesiant drwy gyfryngwyr gwahanol, megis cyfalaf cymdeithasol, incwm, cyflogaeth, statws priodasol, addysg ac iechyd.

Canfûm fod Cristnogion yn y DU yn derbyn hwb uniongyrchol i'w bodlonrwydd bywyd o fynychu gwasanaethau crefyddol yn rheolaidd a'r gred fod eu crefydd yn gwneud

gwahaniaeth yn eu bywydau. Fodd bynnag, maent hefyd yn derbyn hwb i'w bodlonrwydd bywyd drwy fwy o gymdeithasgarwch, incwm, addysg ac iechyd. Gyda Christnogion hefyd wedi'u canfod i fod yn fwy tebygol o fod yn briod ac mewn cyflogaeth na'r rhai heb grefydd, mae bodlonrwydd bywyd yn cael ei hybu yn sgil y ffactorau hyn hefyd.

Yn ddiddorol, nid yw'r rhai sydd â chrefydd nad yw'n Gristnogol (neu, yn y DU, crefydd leiafrifol) yn elwa yn uniongyrchol ar fynychu gwasanaethau crefyddol neu drwy gredu bod eu crefydd yn gwneud gwahaniaeth yn eu bywydau. Fodd bynnag, maent yn fwy tebygol o fod yn briod ac yn gymdeithasol, gan arwain at hwb anuniongyrchol i fodlonrwydd bywyd yn sgil eu crefydd. Felly, pam nad yw'r rhai â chrefydd leiafrifol yn y DU yn derbyn yr un hwb i fodlonrwydd bywyd â Christnogion?

Gwnaeth fy ngwaith ymchwil ganfod bod y rhai â chrefydd leiafrifol yn dueddol o fod ag incwm is a llai o gyfleoedd cyflogaeth ac yn profi mwy o afiechydon na Christnogion neu'r rhai heb grefydd. Mae'r rhain i gyd yn cael effaith negyddol ar fodlonrwydd bywyd y rhai â chrefydd leiafrifol.

Mae'r gwaith hwn yn arwain at lawer o gwestiynau am y rhai sydd â chrefydd leiafrifol. Yn gyntaf, pam nad ydynt yn elwa'n uniongyrchol ar fynychu gwasanaethau crefyddol yn rheolaidd neu o gred fod eu crefydd yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau? A allai hyn fod oherwydd eu bod yn teimlo eu bod wedi'u heithrio neu esgymuno, fel y lleiafrif? A fyddai'r canfyddiadau hyn yr un peth mewn gwlad arall, lle mae eu crefydd yn y mwyafrif?

Hefyd, pam fod y rhai â chrefydd leiafrifol yn dioddef incwm is, llai o opsiynau cyflogaeth a mwy o afiechyd? A allai gwahaniaethu fod yn broblem o hyd ar gyfer y lleiafrifoedd hyn, ac a oes rhywbeth y dylai'r llywodraeth fod yn ei wneud am hyn?

Yn y pen draw, mae'r darn hwn o ymchwil wedi creu mwy o gwestiynau nag atebion, ond teimlaf fod y rhain yn gwestiynau pwysig y mae'n rhaid eu holi. Yn y dyfodol, rwyf yn gobeithio edrych ar sut mae llesiant y rhai â chrefyddau leiafrifol yn amrywio mewn gwledydd eraill.



Samuel Brown

Mae Samuel Brown yn fyfyrwr PhD ac yn swyddog ymchwil WISERD wedi'i leoli ym Mhrifysgol Abertawe. Canolbwynt ei ymchwil yw'r berthynas rhwng y gymdeithas sifil, cyfalaf cymdeithasol a mesurau goddrychol llesiant.

Am ragor o wybodaeth am waith Samuel Brown, ewch www.wiserd.ac.uk/samuelbrown



Beth sy'n helpu pobl sydd â dementia ar ffurf ysgafn neu gymedrol i 'fyw'n dda'? Canfyddiadau o arolwg IDEAL

Yn 2014, gwnaeth WISERD ddechrau gweithio ar brosiect 'Gwella'r profiad o ddementia a gwella bywyd gweithgar' (IDEAL) ynghyd ag ymchwilwyr o ddeuddeg o brifysgolion a sefydliadau eraill, wedi'u harwain gan Brifysgol Caerwysg. IDEAL yw'r astudiaeth fwyaf o'i math yn y DU ac mae wedi cynnwys cyfnewid dros 1,500 o bobl gyda dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt, bob blwyddyn am dair blynedd.

Nod yr astudiaeth yw dod o hyd i ba ffactorau cymdeithasol a seicolegol sy'n dylanwadu ar allu pobl â dementia a'u teuluoedd i fyw'n dda gydag unrhyw fath o ddementia. Bydd y dystiolaeth yn galluogi datblygu polisi, ymyriadau a mentrau newydd i drawsnewid bywydau pobl gyda dementia neu'r sawl sy'n gofalu amdanynt.

Canfyddiadau gwaelodlin IDEAL:

Gofynnwyd i gyfranogwyr sgorio eu hansawdd bywyd, bodlonrwydd ar fywyd, a llesiant. Cafodd y sgoriau hyn eu cyfuno'n un sgôr 'byw'n dda'. Canfuwyd bod llawer o ffactorau'n gysylltiedig â gallu pobl gyda dementia i fyw'n dda, gan gynnwys:

- Nodweddion seicolegol ac iechyd seicolegol, megis personoliaeth, optimistaeth, hunan-barch, unigrwydd ac iselder
- Ffitrwydd ac iechyd corfforol, megis ffordd o fyw a chyflyrau iechyd
- Adnoddau ac asedau, megis maint rhwydweithiau cymdeithasol a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol
- Rheoli bywyd bob dydd gyda dementia, megis y gallu i gyflawni gweithgareddau arferol
- Sefyllfa gymdeithasol, megis dosbarth cymdeithasol a sefyllfa ganfyddedig yn y gymuned

O'r canfyddiadau hyn, mae ffyrdd o wella gallu pobl gyda dementia i fyw'n dda wedi cael eu nodi, sef:

- Cynnal iechyd meddwl da, megis drwy leihau lefelau iselder
- Cynnal iechyd corfforol da a galluogi pobl i reoli eu gweithgareddau yn fwy effeithiol
- Lleihau teimladau ynysig, cynyddu ymgysylltiad cymdeithasol a diwylliannol, a helpu pobl gyda phroblemau gwybyddol i deimlo'n fwy diogel ac wedi ymgysylltu'n fwy â'u cymunedau lleol

Yn WISERD, rydym wedi arwain llawer o gyfnewidiadau manylach gyda sampl lai o gyfranogwyr, a fydd yn darparu cydestun ar gyfer rhai o'r canfyddiadau gwaelodlin. Mae cyfranogwyr wedi bod yn dweud wrthym amdanynt eu hunain a'u bywydau. Gall hyn fod yn anodd i'r rhai sy'n gweld hel atgofion a myfyrio ar eu hystyr yn her sylweddol. Fodd bynnag, mae clywed straeon y sawl sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan broblemau gwybyddol yn hanfodol i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar allu unigolyn a'i deulu i reoli ac ymdopi â'u heffeithiau.

Ein dull gweithredu oedd dod o hyd i strategaethau ar gyfer cynhwysiant – canolbwyntio'n llai ar fanylion penodol digwyddiad neu achlysur y gallai rhywun ei ddisgrifio ac, yn hytrach, archwilio ei deimladau amdano, seilio ein cwestiynau ym mhrofiadau pob

dydd pobl, a chaniatáu mwy o amser i alluogi pobl i fynegi eu meddyliau a'u teimladau.

Mae'r gwaith ansoddol hwn ar raddfa lai yn hanfodol ar gyfer llwyddiant astudiaeth IDEAL. Mae'n galluogi cyfranogwyr i ddisgrifio'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy o ran byw'n dda gyda dementia, yn eu geiriau eu hunain ac ar eu telerau eu hunain. Mae hefyd yn cynnig mwy o fanylder i'r tîm ymchwil ehangach ynglŷn â sut a pham mae rhai ffactorau penodol yn cael effaith ar eu gallu i fyw'n dda.

Adeiladir ar y canfyddiadau gwaelodlin gyda'r dadansoddiad data o'r tri ymweliad cyntaf a chan ddefnyddio'r mewnwleidiad o gyfnewidiadau manwl. At hynny, cafodd IDEAL ei gydnabod gan y Gymdeithas Alzheimer, sydd wedi dewis cyllido ei barhad tan fis Rhagfyr 2022. Bydd yr estyniad hwn i raglen waith IDEAL yn caniatáu i ni weld sut mae cyfranogwyr yn profi newid dros gyfnod hirach o amser a bydd yn cynnwys tri ymweliad arall. Bydd rhan o'r rhaglen ymchwil estynedig hon yn cynnwys recriwtio pobl newydd i'r astudiaeth, yn enwedig y rhai sydd o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

Cyflwyniad am astudiaeth IDEAL yn y Senedd

Rhoddodd yr Athro Ian Rees Jones gyflwyniad am astudiaeth IDEAL yng Nghynullidfa Genedlaethol Cymru i Grŵp Trawsbleidiol dros Ymchwil Feddygol ym mis Mawrth.

Hyfforddi Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru (EYST) ar ddulliau ymchwil gymunedol

Yn 2018, gwnaeth grŵp o wirfoddolwyr ifanc o Dîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru (EYST Cymru) ymuno â WISERD am gwrs hyfforddiant ymchwil weithredu cyfranogol dau ddiwrnod o hyd.

Cafodd EYST Cymru, elusen arobryn, ei sefydlu yn 2005 gan grŵp o bobl ifanc o gefndir lleiafrifol ethnig yn Abertawe, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth cymorth cyfannol sy'n ddiwyllianol sensitif ac wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc du ac o gefndir lleiafrifol ethnig. Ers hynny, mae EYST Cymru wedi ymestyn ei genhadaeth a'i weledigaeth i ddiwallu yn ogystal anghenion teuluoedd ac unigolion o bob oed ymhlith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru.

Roedd y grŵp o ymchwilwyr cymunedol sy'n blaguro eisoes wedi cymryd rhan ym mhrosiect cydweithredol WISERD ac EYST Cymru i ddeall profiadau a safbwyntiau menywod ifanc ar refferendwm Brexit yn well a bywyd ar ôl Brexit. Ar ôl cymryd rhan mewn grŵp ffocws, roedd y menywod ifanc wedi mynegi diddordeb mewn datblygu cysylltiadau pellach â WISERD, a dysgu dulliau ymchwil er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n bwysig iddynt.

Ar ddiwrnod cyntaf yr hyfforddiant, cafodd y grŵp ei gyflwyno i rai dulliau ymgysylltu cyfranogol clasurol. Gwnaethant ddefnyddio dulliau taflu syniadau, trefnu a phleidleisio er mwyn dewis pwnc ymchwil: digartrefedd yn Abertawe. Yna gwnaethant ddefnyddio mapio i ymchwilio ymhellach i fater digartrefedd yn Abertawe.

Roedd yr ail ddiwrnod yn cynnwys ymchwilio i ddulliau ymchwil posibl a dyfeisio strategaeth ar gyfer sut i'w rhoi ar waith, er mwyn deall digartrefedd ynghanol dinas Abertawe yn well. Roedd hyn yn cynnwys penderfynu â phwy i siarad, ble i ddod o hyd iddynt, a pha broblemau neu gwestiynau moesegol a allai godi. Gwnaeth y grŵp benderfynu lleihau ffocws y prosiect ymchwil gymunedol posibl hwn i brofiadau pobl sy'n ceisio lloches a'r rheini o fewn y broses ceisio lloches sy'n ddigartref yn Abertawe. Gwnaethant hefyd arfer dulliau dadansoddi data cyfranogol.

Roedd gwerthusiadau o'r profiad yn gadarnhaol dros ben. Nododd un cyfranogwr, Rudina Koka, fod pobl yn ymchwilio bob dydd, hyd yn oed os yw hyn yn golygu defnyddio peiriant chwilio Google yn unig, ac roedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu sut i ymchwilio i gwestiwn yn systematig ac yn fanwl. Dywedodd Rudina: "Diolch am ein helpu i ymchwilio'n well a hefyd am ein helpu i wella ein syniadau." Yr unig feirniadaeth gan y grŵp o wirfoddolwyr ifanc oedd eu bod yn teimlo bod angen mwy na dau ddiwrnod er mwyn ymchwilio'n llawn i'r cysyniadau a gyflwynwyd a dylunio prosiect ymchwil hyfyw i fwrw ati ag ef.

Dywedodd Rocio Cifuentes, Cyfarwyddwr EYST Cymru: "Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle hwn i wirfoddolwyr EYST ddysgu dulliau ymchwil gymunedol gan ddau hyfforddwr ardderchog a byddem yn gwerthfawrogi cyfleoedd pellach i gydweithredu â WISERD er mwyn i wirfoddolwyr ddatblygu sgiliau ymchwil a'u defnyddio i weithio tuag at gymunedau gwydn."



Hyfforddiant ymchwil weithredu cyfranogol



Ymchwilio i ddigartrefedd yn Abertawe

Interniaethau i fyfyrwyr gyda'r WCVA a Llywodraeth Cymru



Amy Sanders

Yn gyd-berchennog a chyfarwyddwr menter gymdeithasol o'r enw Dynamix, mae Amy Sanders yn gweithio ar brosiectau sy'n tynnu'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus ynghyd. Mae gwaith ymchwil PhD Amy yn ymwneud â'r berthynas rhwng y trydydd sector a sefydliadau'r llywodraeth yng nghyd-destun y wladwriaeth ddatganoledig

Am ragor o wybodaeth am waith Amy Sanders, ewch i www.wiserd.ac.uk/amysanders



Mae fy PhD yn ymwneud â'r bartneriaeth rhwng y trydydd sector a'r wladwriaeth yng Nghymru a'i heffaith ar gydraddoldeb, sefydliadau'r trydydd sector a chynyddu cydraddoldeb.

Roeddwn yn ffodus o ran sicrhau dwy interniaeth gyda sefydliadau sy'n uniongyrchol berthnasol i'n gwaith ymchwil. Roedd fy interniaeth gyntaf gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Datblygodd rhan o'm rôl i hwyluso cyfarfod Cyngor Partneriaeth Trydydd Sector a llunio adroddiad wedi hynny. Yn ychwanegol, rhoddwyd y dasg i mi o gyfarfod â phob aelod o staff a oedd yn cydlynu'r cyfarfodydd portffolio a llunio adroddiad mewnol ar gyfer WCVA. Gwnes i hefyd lunio adolygiad llenyddiaeth ar gyfer staff WCVA, a gafodd ei rannu gydag Uned Trydydd Sector Llywodraeth Cymru.

Yn ystod fy interniaeth gyda Llywodraeth Cymru, roedd modd i mi gefnogi'r gwaith o gynnal dwy gynhadledd, a oedd yn ffordd ddefnyddiol o feithrin cydberthnasau â staff yn yr uned. Cefais gyfarfodydd hefyd gyda swyddogion cyswllt sy'n cydlynu'r cyfarfodydd portffolio ymhob

adran ac, o ganlyniad, datblygais ganllaw sefydlu ar gyfer swyddogion cyswllt y dyfodol. Yn ychwanegol, cynhaliais adolygiad o strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru o safbwynt y trydydd sector.

Mae hwn yn disgrifio beth a wnes, ond gadewch i mi esbonio pam ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer fy ymchwil. Cydnabyddir bod cael mynediad at gyfweleion elít yn heriol, yn arbennig mewn meysydd gwleidyddol, ond drwy'r ddwy interniaeth datblygais rwydweithiau sydd wedi galluogi mynediad er mwyn cyfnewid cyfranogwyr. At hynny, gwnaeth y cydberthnasau y gwnes i eu meithrin wneud mynediad yn bosibl at ddogfennau perthnasol ar gyfer fy nadansoddiad o ddogfennau. Rwyf yn rhagweld hefyd fy mod wedi sefydlu'r cydberthnasau sylfaenol y bydd eu hangen arnaf i gyfathrebu fy nghanfyddiadau ymddangosol i'r unigolion perthnasol, gan lywio eu

harferion sefydliadol a sicrhau bod fy ngwaith ymchwil yn cael effaith.

Gwnaeth y ddau leoliad roi lefel gadarn o wybodaeth arbenigol i mi ar strwythurau sefydliadol a chynefindra ag iaith briodol i sicrhau y byddai fy nghyfweliadau elít yn effeithiol. Gwnes i hefyd feithrin gwybodaeth fanwl am actorion allweddol, gan felly fy ngalluogi i fireinio fy samplu bwriadus ar gyfer cyfweliadau.

O ystyried y manteision hyn, rwyf yn ystyried fy hun yn eithriadol lwcus i fod wedi cael y cyfleoedd hyn. Pe bawn i am drosglwyddo i fyfyrwyr eraill yr allwedd i interniaeth lwyddiannus, byddai'n cynnwys dod o hyd i'r hyn sydd bwysicaf i'ch gwesteiywyr, gwneud eich hun yn amhrisiadwy o ran cyflawni hynny, ac, yn bwysicaf oll, gwneud ffrindiau.

BLOG

GWEITHIO GYDA'R TRYDYDD SECTOR

Tramiau, camlesi a safbwyntiau rhyngwladol ar ymchwil trydydd sector

Yn ddiweddar, mynychais Gynhadledd y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Ymchwil Trydydd Sector (ISTR) yn Amsterdam, gyda rhai o'm cydweithwyr WISERD o Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bangor. Nod y cyfarfod hanner blynedd hwn o academyddion ac ymarferwyr o dros 80 o wledydd yw hyrwyddo'r astudiaeth o'r gymdeithas sifil a'r sector dielw.

Wedi'i gynnal gan Vrije Universiteit (VU) Amsterdam, cyflwynwyd dros 500 o bapurau yn y gynhadledd, gan ysgogi trafodaeth ynglŷn â chymdeithas sifil drwy amrywiaeth o ddechreubwyntiau, gan gynnwys rhywedd, amgylcheddaeth, gwirfoddoli, polisi a llywodraethu. Gwnaethom gyflwyno pum papur a chadeirio tri phanel yn ystod y digwyddiad.



Dr Christala Sophocleous

Mae Dr Christala Sophocleous yn Gydymaith Ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n gweithio ar y prosiect Tiriogaethedd ac Ymgysylltu â'r Trydydd Sector wrth Lunio Polisi a Darparu Lles. Mae'r prosiect hwn yn ymchwilio i sut mae gweinyddiaeth diriogaethol y trydydd sector yng Nghymru wedi newid yn ystod y cyfnod ar ôl y rhyfel a sut mae hyn wedi effeithio ar y ffordd mae sefydliadau'r trydydd sector yn llunio a darparu lles. Mae hefyd yn ymchwilio i rôl y gymdeithas sifil o ran datblygu hawliau dynol yn Ewrop, Asia ac Affrica.

Am ragor o wybodaeth am waith Dr Christala Sophocleous, ewch i www.wiserd.ac.uk/christalasophocleous

Gwnaeth y gynhadledd hefyd greu fforwm ar gyfer trafodaethau ynglŷn ag ariannu'r gymdeithas sifil, ei heriau, a photensial ffynonellau nad yw'n rhai'r wladwriaeth, megis ariannu torfol a mentrau cymdeithasol. Roedd y papurau'n mynegi safbwyntiau damcaniaethol a chysyniadol lliaws, gan greu amgylchedd ysgogol a heriol yn ddeallusol er mwyn myfyrio ar ein gwaith ein hunain yn WISERD.

Yn arbennig, gwnaethom ganfod bod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng ein gwaith yn WISERD ac ymchwil mewn cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol rhyngwladol eraill yn procio'r meddwl. Er enghraifft, tra bod sefydliadau hybrid wedi ffurfio rhwng y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yn Nenmarc a'r DU, mae'n ymddangos fel pe bai ymddiriedaeth a chydweithredu cydfuddiannol yn hytrach na chystadleuaeth a thendro yn chwarae rôl amlycach yn achos Denmarc.

Fel enghraifft arall, trafodwyd astudiaethau achos yn dangos effaith datganoli mewn systemau ffederal gyda chydweithwyr ISTR o Ganada i rannu mewnwelediad i'r trefniadau cyfansoddiadol datganoledig ac anghymesur a welwyd yn y DU a Chanada.

Safbwynt a rennir gan bawb ynglŷn â'r gynhadledd oedd ei bod yn gefnogol ac yn fagwrol iawn, ond yn dal i fod yn gritigol, o ran natur y sgysiau a'r trafodaethau. Gwnaethom ganfod bod cydweithwyr o bob lefel o'r byd academiaidd yn barod i gymryd rhan mewn trafodaethau adeiladol, gan holi cwestiynau perthnasol a threiddgar. Roedd y gynhadledd hefyd yn cynnwys amrywiaeth dda o bapurau gan ymgeiswyr PhD a rhaglen fentora PhD ardderchog.

I gloi, cawsom ein rhyfeddu gan letygarwch y gynhadledd. Roedd Amsterdam yn ddinas ddiddorol a bywiog i dreulio amser ynddi, nid lleiaf oherwydd ei rhwydweithiau tram a beic gwyh. Diolch i letygarwch Maer Amsterdam, daeth ein cyfnod yno i ben gyda thaith hanesyddol ac ymlaciol ar hyd camlas, ac yna mewn gala yn amgueddfa fawreddog Rijks, sy'n gartref i'r artistiaid clasurol Rembrandt a Vermeer. At ei gilydd, roedd ISTR, yn ddeallusol, yn ddiwylliannol ac o ran cydweithredu, yn amser a dreuliwyd yn dda, ac rydym yn dychwelyd wedi ein hysbrydoli i ysgrifennu a rhannu ein syniadau ymchwil ac i feithrin cydweithrediaidau rhyngwladol newydd.



gofod3 2019

Trefnwyd gofod3 Cymru ar gyfer y trydydd sector gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Daeth dros 500 i'r digwyddiad eleni yn Stadiwm Dinas Caerdydd ym mis Mawrth. Dangosodd ehangder a gwerth y trydydd sector yng Nghymru.

Croesawodd tîm WISERD ymwelwyr i'w stondin arddangos drwy gydol y dydd. Roeddent yn croesawu'r cyfle i rwydweithio ag amrywiaeth eang o sefydliadau a rhannu rhai o ganfyddiadau ymchwil WISERD.

Cyflwynodd Dr David Dallimore o Brifysgol Bangor a Dr Christala Sophocleous o Brifysgol Caerdydd weithdy ar 'Ymchwil y Gymdeithas Sifil: Myfyrdodau ar wirfoddoli, cymryd rhan a newid cymdeithasol'.

Dywedodd Dr Christala Sophocleous: "Roedd gofod3 yn ffordd wych o rannu rhai o brif ganfyddiadau ein hymchwil gyda sefydliadau gwirfoddol. Mae bob amser yn werth chweil pan fydd pobl sy'n dod i'r gweithdy'n cydnabod y materion rydym yn eu codi ac mae ein gwaith yn ysgogi trafodaeth bellach ymysg ymarferwyr."

Dywedodd Dr David Dallimore: "Dyma'r eildro i mi gyflwyno yn gofod3 ac mae'n gyfle gwych i rannu a thrafod ein hymchwil gyda chynulleidfia eang a gwybodus. Dim ond ar sail nifer fach

o achosion y gallwn ddod i gasgliadau wrth wneud ymchwil ansoddol. Felly, mae cymryd rhan mewn digwyddiadau fel hyn yn bwysig iawn o ran deall pam mor gyffredin yw ein canfyddiadau - ac mae'r adborth a gawsom wedi bod yn gadarnhaol dros ben."

Ychwanegodd Dr Dallimore: "Mae gofod3 hefyd yn cynnig cyfle prin i rwydweithio, dweud wrth bobl am yr hyn rydym yn ei wneud, yn ogystal â gwrando ar farn pobl sy'n ymwneud â chymdeithas sifil yng Nghymru."



Prif Weithredwr WCVA, Ruth Marks (chwith) a Phrif Weinidog Cymru, Mark Drakeford (canol) yn ymweld â Swyddog Digwyddiadau WISERD, Jane Graves (dde) yn stondin arddangos WISERD

Casglu data digartrefedd yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu prosiect yn rhannol gyda Chanolfan Gydweithredol y DU ar gyfer Tystiolaeth Tai (CaCHE) i archwilio sut y gallai system casglu data digartrefedd newydd edrych a sut y gallai weithio orau yng Nghymru. Mae Ian Thomas o Ganolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADRC-W) yn rhoi trosolwg o'r prosiect a sut y gallai newid yn sylweddol y sail tystiolaeth ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Yn Lloegr, gwnaeth cyflwyno dyletswyddau newydd ar gyfer awdurdodau lleol i gynorthwyo pobl sy'n wynebu digartrefedd fel rhan o Ddeddf Lleihau Digartrefedd 2018 gyd-daro â chasglu data newydd ar lefel unigol. Nod y casgliad newydd hwn yw cynorthwyo wrth fonitro deddfwriaeth newydd Lloegr, a hefyd agor cyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil i'r hyn sy'n gweithio o ran cymorth ar gyfer digartrefedd drwy gysylltu camau gweithredu o dan y ddeddfwriaeth â chanlyniadau ar gyfer unigolion.

Ochr yn ochr â'r newid hwn i ddull gweithredu Lloegr o gasglu data digartrefedd statudol, mae prosiectau ar waith yng Nghymru a'r Alban i archwilio platfformau cenedlaethol sy'n helpu gwasanaethau digartrefedd trydydd sector neu statudol i rannu gwybodaeth a chymryd rhan mewn gwaith ar draws asiantaethau i helpu'r rhai sy'n cysgu ar y stryd. Fel y dengys y datblygiadau hyn o ran casgliadau data gwahanol ar draws y DU, mae mwy o bwysigrwydd yn cael ei roi ar gasglu data canolog ar lefel unigol. Mae'r dull gweithredu a fabwysiadwyd yng Nghymru i fonitro gwasanaethau digartrefedd statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) drwy ddata cyfanredol, sy'n darparu cyfrifiadau o gymorth digartrefedd ar lefel awdurdodau lleol a rhywfaint o wybodaeth gyfyngedig ar

amgylchiadau'r aelwyd. Er bod y data cyfanredol hwn yn ddefnyddiol ar gyfer monitro lefelau cyffredinol o gymorth digartrefedd sy'n cael ei ddarparu, er mwyn asesu canlyniadau hirdymor pobl a'r hyn sy'n gweithio er mwyn atal neu liniaru digartrefedd, mae angen data ar lefel unigol.

Y canlyniad a fwriedir ar gyfer y prosiect yw cyfres o opsiynau ar gyfer system casglu data digartrefedd newydd. Fel rhan o'r broses o lunio'r opsiynau hyn, mae adolygiad o systemau casglu data lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ar waith. Yn ychwanegol at fod â chwmpas daearyddol eang, mae'r adolygiad wedi edrych ar gasglu data mewn meysydd ar wahân i ddigartrefedd er mwyn dysgu oddi wrth eraill ac archwilio defnyddiau diddorol o dechnolegau newydd.

Hyd yn hyn, mae 34 esiampol o gasglu data wedi'u nodi a'u hadolygu, yn rhychwantu saith gwlad. Gan fod pob system yn unigryw o ran ei diben a'i chyd-destun, mae agweddau gwahanol ar y 34 system wedi cael eu hystyried wrth lunio'r opsiynau ar gyfer casgliad data digartrefedd newydd.

Yn ychwanegol at lunio opsiynau, mae'r prosiect yn edrych ar arferion casglu data cyfredol yr awdurdodau lleol, drwy arolwg o awdurdodau lleol

i ddechrau. Er bod yr awdurdodau lleol i gyd yn adrodd yr un cyfrifiadau cyfanredol i Lywodraeth Cymru, mae gan bob awdurdod ei ffordd ei hun o gasglu a rheoli gwybodaeth ynglŷn â'r bobl y maent yn eu helpu o dan Ddeddf Tai (Cymru). Yn ychwanegol at yr arolwg, dros yr ychydig fisoedd nesaf, rydym yn gobeithio ymweld â nifer o awdurdodau lleol er mwyn gweld eu harferion casglu yn ymarferol a dysgu mwy am bryd, ble a chan bwy mae'r data yn cael ei fewnbynnydd i systemau lleol, a sut mae awdurdodau lleol yn defnyddio eu data eu hunain i benderfynu ar y ddarpariaeth gwasanaeth. Bydd gwybod lle rydym yn sefyll nawr o ran gallu awdurdodau lleol yn helpu i lywio'r ffordd ymlaen o ran datblygu casgliad data digartrefedd newydd ar gyfer Cymru.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn neu gymryd rhan, cysylltwch ag Ian Thomas www.wiserd.ac.uk/ianthomas

Cynhadledd Ymchwil Tai Cymru 2019
Gwnaeth Rhwydwaith Ymchwil Tai Cymru WISERD gyd-gynnal Cynhadledd Ymchwil Tai Cymru 2019 gyda Chanolfan Gydweithredol y DU ar gyfer Tystiolaeth Tai, Shelter Cymru a Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr eleni ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan: www.wiserd.ac.uk/cy

Gweithredu cymdeithasol fel llwybr at y blwch pleidleisio: gwirfoddoli a'r ganran sy'n pleidleisio

Mae prosiect diweddaraf Dr Stuart Fox yn archwilio manteision gwirfoddoli ar gyfer ymgysylltiad gwleidyddol pobl ifanc yn y DU. Pleidleisio yw'r un dull pwysicaf a mwyaf cyffredin o gyfranogiad gwleidyddol mewn democratiaeth, ond mae pleidleiswyr ifanc heddiw yn ddigynsail o amharod i fynd at y blwch pleidleisio.

At hynny, nid yw'r dirywiad hwn mewn ymgysylltiad yn gyfyngedig i bleidleisio – boed hynny yn ymuno â chymdeithasau cymunedol megis clybiau chwaraeon neu undebau llafur, cymryd rhan mewn gwrthdystiadau neu lobio gwleidyddion, mae unigolion o'r milflwydd yn llai tebygol o fod yn weithredol na'u rhieni neu eu neiniau a'u theidiau pan oeddent yr un oedran. Efallai mai'r hyn sy'n peri mwy fyth o bryder yw bod rhai unigolion o'r milflwydd sydd hyd yn oed yn llai tebygol o fod yn weithredol na'u cyfoedion, yn arbennig y rhai o gefndiroedd tlotach neu'r rhai nad dynt yn mynd i'r brifysgol.

Fodd bynnag, un gweithgaredd sy'n ymddangos fel pe bai'n mynd yn groes i'r duedd hon yw gwirfoddoli. Mae unigolion o'r milflwydd o leiaf yr un mor debygol o ymuno â sefydliadau gwirfoddoli a chymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol â'r rhai hŷn, ac mae rhywfaint o dystiolaeth yn bodoli i ddweud y gallent fod hyd yn oed yn fwy tebygol o wneud hynny. Mae gwirfoddoli nid yn unig yn weithgaredd sydd o fudd mawr i gymunedau a phobl fregus yn ein cymdeithas, mae'n dod â buddion mawr i'r gwirfoddolwr hefyd: mae'n helpu i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy o ran gwaith tîm, arweinyddiaeth, gweithio'n annibynnol a rheoli amser; mae'n rhoi mynediad i bobl at sgiliau a phrofiadau newydd; mae'n datblygu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am faterion

cymunedol; ac mae'n ymestyn ac yn datblygu rhwydweithiau cymdeithasol.

Mae potensial clir, felly, ar gyfer gwirfoddoli – ac mae cynlluniau sy'n hyrwyddo gwirfoddoli, megis y Gwasanaeth Dinesydd Cenedlaethol – i'w wneud yn haws i bobl ifanc bleidleisio a lleihau'r bwlch yn y ganran rhwng yr hen ac ifanc sy'n pleidleisio mewn etholiadau.

Mae potensial hefyd i wirfoddoli fod o fudd anghymesur i bobl ifanc o gefndiroedd tlotach, gan fod ganddynt fynediad at lawer llai o ffynonellau o wybodaeth wleidyddol, sgiliau a rhwydweithiau cymdeithasol na rhywun o deulu dosbarth canol a/neu aeth i'r brifysgol.

Mae'r prosiect hwn yn archwilio'r potensial hwnnw ac yn penderfynu a yw'n cael ei wireddu. Gan ddefnyddio Arolwg Hydredol Aelwydydd y DU (a gaiff ei adnabod hefyd fel Deall Cymdeithas), mae'n ystyried a yw gwirfoddoli yn rhoi sgiliau, gwybodaeth a rhwydweithiau i bobl ifanc sy'n eu

gwneud yn fwy tebygol o bleidleisio, ac mae'n ystyried a yw'r budd yn arbennig o fawr ar gyfer pobl ifanc o gefndiroedd tlotach.

Bydd canfyddiadau'r prosiect yn cael eu defnyddio i asesu effeithiolrwydd cynlluniau'r llywodraeth a gynlluniwyd i hyrwyddo gwirfoddoli. Gan weithio gyda phartneriaid yn y gymdeithas sifil megis Cymdeithas Cyngorau Gwirfoddol Sirol Cymru a Chyngor Cenedlaethol y Sefydliadau Gwirfoddol, bydd hefyd yn datblygu cyfres o argymhellion polisi ar gyfer llywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU o ran eu cymorth ar gyfer cynlluniau gwirfoddoli, a sut y gallent ddefnyddio'r cynlluniau hynny i fynd i'r afael â'r bwlch sy'n tyfu rhwng y ganran sy'n pleidleisio ac ymgysylltu gwleidyddol rhwng unigolion o'r milflwydd a phobl hŷn.

Mae Dr Stuart Fox wedi ysgrifennu nifer o bostiadau blog fel rhan o'r prosiect hwn, y gallwch eu darllen ar ein gwefan: www.wiserd.ac.uk/cy/newyddion

A yw ofn trosedd yn effeithio ar gyfranogiad cymdeithasol?

Dangoswyd er bod ganddynt risgiau is o ddioddef troseddu, mae pobl hŷn yn dueddol o fod yn fwy ofnus o drosedd nag aelodau iau o'r gymdeithas. Nod ein hymchwiliad yw datgelu a oes tystiolaeth fod y pryder hwn o drosedd hefyd yn effeithio ar eu cyfranogiad cymdeithasol.

Er mwyn ateb y cwestiwn hwn, rydym wedi defnyddio data o nifer o Arolygon Dinasyddiaeth y Swyddfa Gartref. Mae'r rhain yn darparu astudiaeth flynyddol ar draws adrannau ar faterion cydlyniant cymunedol, ymgysylltiad dinesig, hil, cred a gwirfoddoli yng Nghymru a Lloegr.

Ar gyfer ein hastudiaeth, gwnaethom wahaniaethu rhwng ymatebwyr â lefelau gwahanol o gyfranogiad mewn grwpiau, clybiau neu sefydliadau. Er mwyn mesur y pryder o droseddau, rydym wedi archwilio pa mor ddiogel mae ein ymatebwyr yn teimlo wrth gerdded ar eu pennau eu hunain ar ôl iddi dywyllu (a gredir i fod yn fesur mwy cyffredinol ar gyfer pryder am droseddau) a chanfyddiad ymatebwyr o'r risg o fod yn ddioddefwr troseddu.

Gwnaeth edrych ar y berthynas rhwng oedran yr ymatebwyr a'r ddau fesur hyn ddatgelu ein bod, wrth i ni heneiddio, yn teimlo'n llai diogel wrth gerdded ar ein pennau eu hunain yn y strydoedd ar ôl iddi dywyllu. Fodd bynnag, roedd gan y pryder am fod yn ddioddefwr troseddu berthynas gromliniol ag oedran, gan frigo ymhlith

pobl yn eu 30au a dirywio'n gyflym ar ôl eu 60au. Pan ofynnwyd am y graddau y mae unigolion yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar eu pennau eu hunain ar ôl iddi dywyllu, mae ymatebwyr yn dueddol o adrodd am eu gorbryder ynglŷn â bod yn ddioddefwr troseddau. Fodd bynnag, bydd gofyn i ymatebwyr yn uniongyrchol ynglŷn â'u pryder o fod yn ddioddefwr troseddau yn porthi eu risg ganfyddedig o fod yn ddioddefwr.

Gwnaethom ddarganfod bod y ddau fesur o bryder am droseddau yn effeithio'r tebygolrwydd o fod yn fwy gweithredol yn gymdeithasol. Roedd teimlo'n llai diogel wrth gerdded ar eu pennau eu hunain yn y stryd ar ôl iddi dywyllu yn cael effaith negyddol llinol gref ar y graddau y mae unigolyn yn weithredol yn gymdeithasol. Yn ychwanegol, roedd y berthynas hon yn gryfach ar gyfer ymatebwyr a oedd yn hŷn. Felly, nid yn unig y mae ymatebwyr hŷn yn teimlo'n llai diogel wrth gerdded ar eu pennau eu hunain ar ôl iddi dywyllu ond roedd yr effaith roedd y teimlad hwn yn ei chael arnynt o ran bod yn weithredol yn gymdeithasol yn gryfach hefyd.

Ar y llaw arall, roedd poeni am fod yn ddioddefwr troseddau yn cael effaith gromliniol ar weithgaredd cymdeithasol, gan gynyddu gweithgarwch unigolyn i ddechrau ac yna arwain at ddirywiad o ran gweithgaredd ar ôl cyrraedd lefel benodol o bryder. Ni wnaethom ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth fod graddau'r dirywiad hwn yn amrywio yn ôl oedran, ond gwnaethom ddarganfod bod y cynnydd cychwynnol mewn gweithgarwch wedi'i achosi gan gynnydd mewn pryder yn llai cryf ar gyfer ymatebwyr hŷn.

Felly, gallwn ddod i'r casgliad fod y pryder am droseddau wir yn effeithio ar gyfranogiad pobl hŷn mewn cyfranogiad cymdeithasol yn wahanol. Fodd bynnag, canfuwyd bod hyn ond yn wir ar gyfer ein mesur ynglŷn â cherdded ar eu pennau eu hunain ar ôl iddi dywyllu, o'i gyferbynnu â'r mesur a oedd yn cofnodi risg ganfyddedig unigolyn o ddod yn ddioddefwr troseddau.

"Mae pobl hŷn yn fwy tueddol o fod yn bryderus am droseddau nag aelodau iau o'r gymdeithas."



**Dr Martijn
Hogerbrugge**

Mae Martijn Hogerbrugge yn Gydymaith Ymchwil Feintiol ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n gweithio ar brosiect Cyfalaf Cymdeithasol a Diwylliannol yn Hwyrach mewn Bywyd gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Chaerdydd.

Am ragor o wybodaeth am waith Dr Martijn Hogerbrugge, ewch i www.wiserd.ac.uk/martijnhogerbrugge



Taith Dywys Hudol 'datganoli' yn Lloegr

Ers diwedd y 1990au, mae'r ymagwedd tuag at ddatganoli a fabwysiadwyd gan lywodraethau olynol San Steffan wedi adlewyrchu'r nodweddion 'straffaglu' clasurol wrth lunio polisi.

Esblygodd datganoli ar draws y DU drwy gamau bach, cynyddol ac anghymesuredd gosodedig yn hytrach na gweledigaeth gyfansoddiadol drosfwaol.

Yr haf diwethaf, fel rhan o brosiect Cymdeithas Sifil WISERD, sef 'Meithrin Ymddiriedaeth', gwnaethom siarad ag unigolion amrywiol ar draws gogledd-orllewin Lloegr am natur gyfnewidiol trefniadau llywodraethu.

Mae'r agenda ddatganoli gyfredol yn Lloegr wedi'i nodweddu fel 'taith yn hytrach na phen y daith', gan adleisio geiriau cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru Ron Davies wrth sôn am ddatganoli yng Nghymru fel "proses yn hytrach na digwyddiad". Fodd bynnag, mae'r ugain mlynedd gyntaf o ddatganoli yng Nghymru yn edrych yn gymharol gydlynol ac wedi'u cynllunio'n dda o'u cymharu â'r polisiâu tameidiog a ataliwyd yn aml yn Lloegr.

Ochr yn ochr â chyflwyno Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban, roedd llywodraeth Llafur Newydd yn betrusgar wrth ddilyn agenda

ranbarthol yn Lloegr, gan gyflwyno asiantaethau datblygu ranbarthol a chynulliadau ranbarthol wedi'u hethol yn anuniongyrchol. Fodd bynnag, cafodd yr agenda ranbarthol hon ei disodli yn ddiseremoni yn dilyn gwrthodiad llethol gogledd-ddwyrain Lloegr o lywodraeth ranbarthol etholedig ym mis Tachwedd 2004 a brwdfrydedd cynyddol Llywodraeth y DU am ddinas-ranbarthau.

Gwnaeth llywodraeth glymblaid wedi'i harwain gan y Ceidwadwyr barhau â'r daith hon, gan gael gwared ar yr asiantaethau datblygu ranbarthol a Swyddfeydd Llywodraeth y Rhanbarthau (a sefydlwyd ar ddechrau'r 1990au) a chreu partneriaethau menter lleol wedi'u harwain gan fusnesau. Yn wreiddiol, bwriadwyd i'r partneriaethau menter lleol adlewyrchu daearyddiaeth economaidd ond roedd yn anorod i raddau iddynt arwain at glytwaith o bartneriaethau ar draws Lloegr i gyd – hyd yn oed pan oedd hi'n ymddangos fod y rhesymeg economaidd yn brin.

Mae'r ymgais ddiweddaraf i fynd i'r afael â llywodraethu is-genedlaethol Lloegr wedi canoli ar 'fargeinion datganoli' yn creu awdurdodau cyfun a meiri metro etholedig, wedi'u hysgogi gan fenter 'Pwerdy Gogledd Lloegr' George Osborne, y canghellor ar y pryd.

Fodd bynnag, mae ymagwedd llywodraeth y Ceidwadwyr tuag at ddatganoli yn Lloegr yn ymddangos fel pe bai'n creu lefel newydd o 'straffaglu'.

Er bod ymagwedd 'yr un maint i bob dim' wedi'i disgrifio'n aml gan gyfranogwyr yn ein gwaith ymchwil fel un anaddas, mae'r gwahaniaethau o ran graddau datganoli ar draws Lloegr wedi cynyddu'n raddol dros y pedair i bum mlynedd diwethaf.

Yng ngogledd-orllewin Lloegr, mae Manceinion Fwyaf wedi bod yn flaenllaw o ran datganoli yn Lloegr, gan dderbyn cyfrifoldeb datganoledig dros iechyd a gofal cymdeithasol, ond mae awdurdodau lleol yn Swydd Gaerlleon, Cymbria a Sir Gaerhirfryn heb fynd heibio'r pwynt cyntaf o ran cytuno ar drefniadau partneriaeth. O ran hynny, mae'r clytwaith nid yn unig yn dangos ôl traul – mae bylchau mawr ynddo.

At hynny, canfyddir nad oes gan weinidogion y llywodraeth ac adrannau Whitehall weledigaeth gydlynol ar gyfer datganoli pwerau a chyfrifoldebau, ac yn hytrach mae awdurdodau cyfun yn Lerpwl a Manceinion wedi mabwysiadu ymagwedd sy'n bachu ar y cyfle i dynnu pwerau i lawr oddi wrth y llywodraeth ganolog.

At ei gilydd, gallai fod yn apelgar nodweddu datganoli yn Lloegr fel taith, ond yn bwysicaf oll nid yw'n ymddangos fel pe bai pawb yn teithio ar y bws. At hynny, nid oes gan unrhyw un syniad ble y gallai fod yn mynd neu beth fydd yn digwydd os a phryd y bydd yn torri i lawr.



Dr Ian Stafford

Mae Dr Ian Stafford yn gydymchwilydd ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o rwydwaith rhyngwladol tair blynedd wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Leverhulme yn ymchwilio i gwestiynau yn ymwneud â llywodraethu tiriogaethol.

Am ragor o wybodaeth am waith Dr Ian Stafford, ewch www.wiserd.ac.uk/ianstafford

Sefydliad undebau llafur byd-eang yn cydnabod effaith gwaith ymchwil WISERD

Mae pwysigrwydd adroddiad newydd, 'Ymatebion Undebau Llafur i Fyd Gwaith sy'n Newid', a ysgrifennwyd gan Dr Helen Blakely a Steve Davies ac sy'n edrych ar ymatebion undebau llafur i fyd gwaith sy'n newid ledled y byd, wedi cael ei gydnabod gan UNI Global Union. Mewn llythyr gan Ysgrifennydd Cyffredinol UNI Global Union, Christy Hoffman, diolchwyd i dîm WISERD am ddarparu 'corff o waith ymchwil mor bwysig'.

Mae hi'n nodi bod eu cyflwyniad ac adroddiad o ddiddordeb mawr i gannoedd o arweinwyr undebau llafur mewn dros 460 o sefydliadau ym Mhumed Gyngres y Byd UNI Global Union yn Lerpwl yn gynharach eleni. Yn enwedig, mae hi'n cyfeirio'n benodol at arwyddocâd eu casgliadau yn ymwneud â sut i ddefnyddio cydfargeinio fel ateb ar gyfer trafferthion digideiddio a'r rôl hanfodol mae undebau llafur yn eu chwarae mewn cydlyniant cymunedol.

Mae ei llythyr yn cydnabod eu hadroddiad fel 'cyfeirbwynt diffiniol i lywio ein meddwl ar y pwn'.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar allu strategol undebau i ddatblygu hen adnoddau a gallu a datblygu rhai newydd mewn ymateb i fyd gwaith sy'n newid yn gyflym. Er bod amrywiadau pwysig ar draws gwledydd a rhanbarthau, mae nifer o dueddiadau byd-eang yn cyflwyno heriau i undebau llafur megis mathau o gyflogaeth sy'n newid, digideiddio, awtomatiaeth, ac allanoli gwaith.

Gwnaeth y tîm edrych ar 25 astudiaeth achos o bum cyfandir, ac maent yn dangos ffyrdd gwahanol o sut mae undebau llafur yn gallu gweithredu newid. Mae rhai o'r achosion yn dangos bod undebau llafur yn defnyddio dulliau sy'n wirioneddol newydd. Fodd bynnag, yn aml mae angen defnyddio dulliau a syniadau traddodiadol mewn cyd-destun newydd neu wahanol, neu eu trosglwyddo o un wlad i wlad arall, neu o un sector i sector arall er mwyn torri trwyddo.

Mae'r astudiaeth yn dangos y rôl sy'n cael ei chwarae gan waith undebau wrth drawsffurfio sefyllfaoedd anodd yn gyfleoedd ar gyfer twf undebau ac enillion yn sgil bargeinio. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad fod y gwaith ymchwil wedi darganfod ei bod yn bosibl, drwy'r defnydd o strategaethau cyfun a chyflenwol, i undebau dynnu oddi ar ffynonellau pŵer newydd a'u cryfhau a chreu i ddod o hyd i lwybrau uniongyrchol ac anuniongyrchol at enillion cynaliadwy.



#UNI18

Dr Helen Blakely yn siarad yn Uwchgynhadledd Arweinyddiaeth Byd Gwaith y Dyfodol ym mhencadlys UNI Global Union yn y Swistir

Trefnu undebau llafur drwy'r cyfryngau cymdeithasol

Gwnaeth ymchwilwyr WISERD rannu mewnwelediadau o ymgyrchoedd effeithiol ar y cyfryngau cymdeithasol gan undebau llafur fel rhan o ŵyl Gwyddorau Cymdeithasol ESRC 2018. Gwnaeth y gweithdy dwy awr gynnwys dadansoddiad o sut y cafodd y cyfryngau cymdeithasol eu defnyddio yn yr ymgyrch #McStrike ddiweddar a chafodd ei anelu at swyddogion undebau llafur ac actifyddion a oedd yn dangos diddordeb mewn datblygu eu dealltwriaeth o'r defnydd strategol o'r cyfryngau cymdeithasol wrth drefnu undebau llafur.

Deall profiadau gweithwyr dillad

Mae tîm o ymchwilwyr o WISERD ac Ysgol Busnes Caerdydd wedi dechrau prosiect newydd yn ddiweddar wedi'i ariannu gan ESRC fel rhan o Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang (GCRF). Bydd tîm y DU yn cydweithio'n agos â phartneriaid ymchwil yn Civedep-India, i ddeall profiadau gweithwyr dillad yn eu gweithleoedd.

Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar yr heriau ymddangosiadol anhydrin a wynebir gan weithwyr sy'n gweithredu eu hawliau llafur ar waelod y gadwyn werth, llafur-ddwys sydd wedi'i gyrru gan y prynwyr wrth roi dillad at ei gilydd. Bydd ein gwaith ymchwil yn astudiaeth sy'n canolbwyntio ar y gweithle yng nghyd-destun datblygiad rhyngwladol anghyfartal. Bydd yn ystyried yr heriau sy'n wynebu gweithwyr o dan anfantais gymdeithasol-economaidd, sy'n newydd i amgylcheddau diwydiannol a threfol ac yn anghyfarwydd â threfnu casgliadol, o ran cael mynediad at gamau unioni a gweithredu safonau llafur craidd. Mae'r rhain yn seiliedig ar egwyddorion gwaith gweddus a sefydlwyd gan y Datganiad Trefnu Llafur Rhyngwladol ar Egwyddorion

a Hawliau Sylfaenol yn y Gwaith ac Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol.

Mae'r Fframwaith Diogelu, Parchu ac Unioni cysylltiedig, a ddatblygwyd gan John Ruggie, yn galw yn gyntaf ar genedl-wladwriaethau i ddiogelu eu dinasyddion ac, yn ail, yn mynnu y dylai corfforaethau barchu hawliau dynol yn y gwaith. Mae ein gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar biler olaf fframwaith Ruggie, sef 'mynediad at gamau unioni'. Rydym yn ymwneud â mapio'r graddau y mae hawliau dynol, er enghraifft, rhyddid cysylltiad, yn gallu cael strwythur fel hawliau cyflogaeth y gellir eu gorfodi ac mewn ffyrdd sy'n caniatáu i weithwyr cyffredin gael eu clywed, mewn ffordd styrlon, yn y gweithle.

Felly, yn yr astudiaeth hon byddwn yn ymchwilio i natur, proses a chanlyniadau cwynion yn y gweithle fel ffordd o asesu pa mor bell y mae'n bosibl i weithiwr ddefnyddio mecanweithiau datrys anghydfod i weithredu hawliau llafur (gan gynnwys yr hawl galluogi i drefnu) er mwyn cael mynediad at gamau unioni ar y lefel leol. Drwy'r astudiaeth hon, ein nod yw cynnig cronfa ddata ddibynadwy o wybodaeth am amodau cyflogaeth a fydd yn llywio cyhoeddiadau academaidd a chyfrannu at theori a gwybodaeth am gysylltiadau diwydiannol yn y gweithle o fewn y gadwyn cyflenwi dillad ryngwladol. Bydd ein partneriaid hefyd yn defnyddio'r canfyddiadau mewn agweddau gwahanol ar eu heiriolaeth gyda llunwyr polisi a brandiau rhyngwladol.

WISERD yn cyflwyno yng Ngŵyl y Gelli

Yn rhan o brosiect Cronfa Ymchwil Heriau Byd-eang, gwnaeth Dr Jean Jenkins, Darllenydd Cysylltiadau Cyflogaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, gyflwyniad yng Ngŵyl y Gelli ym mis Mai 2019. Yn ei chyflwyniad, manylodd ar yr ecsbloetio aruthrol sy'n ffynnu wrth gynhyrchu dillad a sut mae gweithwyr yn brwydro yn erbyn y llanw i daro yn ôl.



NEWYDDION YMCHWILIO I ANGHYDRADDOLDEB

Dylai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin roi dyfodol i Gymru – nid siec yn unig

Mae Cymru ar fin wynebu twll ariannu. Ar ôl Brexit, byddwn ni'n colli mynediad at y buddiannau net rydym yn eu hennill o gronfeydd Ewropeaidd. Mae'r rhain yn cynnwys yr hyn a elwir yn 'gronfeydd strwythurol', sy'n cefnogi datblygu rhanbarthol a mentrau cymdeithasol. Ar gyfer 2012–20 yn unig, clustnodwyd gwerth tua £2 filiwn o ariannu strwythurol i Gymru. Mae hwnnw'n swm sylweddol o arian i'w golli, felly mae gobaith y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin newydd ar draws y DU yn llenwi'r bwlch.

Eisoes mae digonedd o gwestiynau – a phrin yw'r atebion – o ran sut olwg bydd ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ymarferol. Mewn dadl yn San Steffan, gwnaeth Aelodau Seneddol o Gymru ddadlau na ddylai'r ariannu parhaus i Gymru fod yn llai na lefelau ariannu cyfredol yr Undeb Ewropeaidd. Er enghraifft, gwnaeth Ben Lake o Geredigion ddisgrifio Cronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i hariannu'n dda fel "rhaff achub bosibl ar gyfer ein cymunedau".

Er nad ydym yn dadlau yn erbyn yr angen am fuddsoddiad parhaus yng Nghymru, mae cymunedau Cymru wedi derbyn 'rhaffau achub' ariannol o'r UE am gyfnod sy'n agos at ddau ddegawd. Roedd 'Gorllewin Cymru a'r Cymoedd' – cyfuniad o'n hardaloedd sy'n tanberfformio fwyaf yn economaidd – yn gymwys yn gyntaf ar gyfer y lefel uchaf o ariannu strwythurol yn 2000. Ar y pryd, roedd y gobeithion yn uchel. Roedd placiau ariannu'r UE yn ymddangos ledled Cymru, yn addo pob math o gynlluniau a breuddwydion.

Ond pan wnaethom gyfnewid gwneuthurwyr polisi yng Nghymru fel rhan o'n prosiect *Mecanweithiau Integreiddiol ar gyfer Mynd i'r Afael â Chyfiawnder Gofodol ac Anghyfartaledd Tiriogaethol yn Ewrop (IMAJINE)*, roedd llawer o'r farn nad oedd yr ariannu wedi gweithio mewn gwirionedd. Fel yr esboniodd un uwch-ymgynghorydd, "Gwnaethom ddechrau gyda sefyllfa o anghyfartaledd economaidd a chymdeithasol ac yn sicr nid ydym wedi cau'r bwlch hwnnw." Felly, ar ôl Brexit, a fydd yr un maint o

ariannu o dan enw arall yn profi i fod yn fwy effeithiol i Gymru?

Mae gwahaniaethau cymdeithasol-economaidd ystyfnig yng Nghymru. Mae ambell un wedi dadlau bod mannau a oedd 'wedi cael eu gadael ar ôl' yn y DU wedi gogwyddo'r bleidlais Brexit i adael yr UE, a dylai hynny wneud y mater o rannu ffyniant fod yn bwysicach nag erioed. Ond mae'n deg dweud na fydd aildosbarthu yn null Robin Hood yn rhan o bolisi'r llywodraeth yn y dyfodol agos. Os yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gweithio fel y cronfeydd strwythurol, bydd buddsoddiad strategol mewn rhai ardaloedd neu ranbarthau gyda'r nod o'u helpu i gyrraedd yn nes at leoedd neu ranbarthau eraill, mwy ffyniannus.

Y broblem gyda datblygu rhanbarthol fel gêm o ddal i fyny yw bod y llwyddiant yn cael ei ddiffinio gan yr hyn y mae'r canolfannau economaidd cryfaf eisoes wedi ei wneud. Mae hynny'n ei gwneud hi'n gêm anodd ei hennill hyd byth. Hoffem yn hytrach weld dull gweithredu sy'n seiliedig ar yr hyn y mae nifer o ddamcaniaethwyr wedi galw'n 'gyfiawnder gofodol'. Yn syml, nid yw cyfiawnder gofodol yn ymwneud â mantais barhaus ar gyfer rhanbarthau sydd eisoes yn fwy llewyrchus, ond nid yw'n cymryd yn ganiataol chwaith fod angen yr un dull datblygu ar bob rhanbarth. Nid gorffennol Llundain yw dyfodol ffyniannus i Gymru – na chwaith yn un Gaerdydd fawr.

Yn ein gwaith gyda'r prosiect IMAJINE, mae'r Athro Rhys Jones a minnau wedi bod yn edrych ar sut y gall

cyfiawnder gofodol gael ei droi o fod yn syniad da i bolisiau sy'n gweithio. Mae rhai arwyddion calonogol eisoes yng Nghymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er enghraifft, yn helpu i ddiffinio dyfodol i Gymru sy'n ymestyn y tu hwn i fesurau confensiynol o lwyddiant economaidd.

Mae angen i wneuthurwyr polisi yng Nghymru barhau i fod â'r dewrder i ddilyn gweledigaeth Gymreig o ddyfodol cyfiawn – ac mae gan academyddion fel y rheini ohonom yn WISERD rôl i'w chwarae o ran helpu i fireinio a gwireddu gweledigaethau o gyfiawnder yng Nghymru ac i Gymru. Felly, dewch i ni siarad am Gronfa Ffyniant Gyffredin sy'n rhoi cyfiawnder i Gymru – nid siec ariannu o'r un maint yn unig.



Dr Bryonny Goodwin-Hawkins

Mae Dr Bryonny Goodwin-Hawkins yn Gydymaith Ymchwil Ôl-raddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae Bryonny yn gweithio ar brosiect *Mecanweithiau Integreiddiol ar gyfer Mynd i'r Afael â Chyfiawnder Gofodol ac Anghyfartaledd Tiriogaethol yn Ewrop (IMAJINE)*, a ariennir gan Horizon 2020, i ddatblygu ymatebion polisi newydd i anghyfartaledd tiriogaethol yn Ewrop.

Am ragor o wybodaeth am waith Dr Bryonny Goodwin-Hawkins, ewch i www.wiserd.ac.uk/bryonnygoodwinhawkins

Ffenomenon gynyddol masnachu priodferched



Yn wladwriaeth seciwlar yn gyfansoddiadol, mae India yn wlad amrywiol gyda rhaniadau crefyddol amlwg. Mae'r blynyddoedd diweddar wedi profi pryderon rhyngwladol a domestig cynyddol ynglŷn â sawl math o wahaniaethu sy'n effeithio ar unigolion sy'n perthyn i leiafrifoedd crefyddol ac ieithyddol, a thuedd gynyddol o drais yn erbyn lleiafrifoedd crefyddol. Mae pryderon tebyg dros wahaniaethu a gormes yn wynebu menywod a merched.

Er mwyn ymchwilio i'r materion hyn yn fanylach, rydym wedi bod yn cynnal cyfweiliadau ansoddol ac arsylwi ar gyfranogwyr gyda sefydliadau anllywodraethol sy'n ymwneud â rhyddid crefyddol a chydaddoldeb rhywedd. Ym mis Awst 2018, gwnaethom gynnal gweithdy ymchwil ar gymdeithas sifil a hawliau dinasyddiaeth yn India, yn New Delhi (yn y llun), a gallwn bellach rannu rhai o'n canfyddiadau ymddangosol. Mae'r cofnodion rydym wedi eu casglu yn darparu manylion cyfoethog yn cefnogi pryderon yn ymwneud â thorri hawliau a fynegwyd gan y Cenhedloedd Unedig ac arsylwyr eraill. Gellir nodi'r croestoriad o gydraddoldeb rhywedd a rhyddid crefyddol yn glir, gan gyfeirio at un mater: ffenomenon cynyddol masnachu priodferched.

Mae cynrychiolwyr y gymdeithas sifil y gwnaethom eu cyfwrdd yn tynnu sylw at fasnachu priodferched, yn enwedig merched a fasnachwyd o Assam a Bengal, a Bangladesh.

Gwnaeth cyfranogwyr ein gwaith ymchwil siarad am sut mae cyrff anllywodraethol yn gweithredu i achub merched a fasnachwyd. O'r rhain, mae canran uchel yn perthyn i'r gymuned Fwslemaidd. Gwnaethant rybuddio ei fod yn rhy syml rhoi'r bai ar un gymuned grefyddol yn unig, oherwydd mae'n effeithio ar y rhan fwyaf o grwpiau crefyddol i raddau amrywiol. Mae'r broblem yn cael ei gyrru gan dorri difrifol ar hawliau – ffetysladdiad benywaidd.

Mae'r cofnodion a gasglwyd yn tanlinellu her allweddol ar gyfer cyrff anllywodraethol o ran sut i godi ymwybyddiaeth ar fater masnachu priodferched. Mae angen hefyd i gymdeithas sifil gymryd rhan wrth ffurfio a beirniadu ymateb polisi'r llywodraeth. Gwnaeth gwaith y cyrff anllywodraethol ar draws taleithiau yng ngogledd India, yn amrywio o Assam yn y dwyrain i Madhya Pradesh yn y gorllewin, ddatgelu ymwybyddiaeth polisi cyhoeddus isel ar y pwnc – dim ond dwy ardal oedd yn meddu ar rywfaint o wybodaeth am bolisiâu llywodraeth India ar fasnachu priodferched.

Mae hyn yn arwydd o fwth gweithredu polisi llywodraeth clasurol, sydd yn awgrymu angen brys, fel yr oedd y cyfranogwyr ymchwil yn dadlau, i sicrhau bod y gymdeithas sifil yn ymwybodol ac yn paratui i fynd i'r afael â masnachu priodferched er mwyn cynnal hawliau dinasyddiaeth yr holl fenywod a merched.

Beth yw ffetysladdiad benywaidd?

Mae'r gyfraith hawliau dynol ar erthyglu yn gymhleth ac yn llawn gwrthddywediadau. Er hynny, mae ffetysladdiad benywaidd yn ddull erthyglu anghyfreithlon ac mae'n mynd yn groes i Erthygl 3 y Confensiwn Cyffredinol ar Hawliau Dynol (yr hawl i fywyd). Mae'r cymhellion ar gyfer ffetysladdiad benywaidd yn seiliedig ar hanes a diwylliant. Yn draddodiadol, mae plant gwrywaidd wedi cael eu ffafrio am eu bod yn darparu gwaith llaw ac olyniaeth yn llinach y teulu. Mae dewis erthyglu ffetysau benywaidd fwyaf cyffredin mewn ardaloedd pan fo arferion diwylliannol yn gwerthfawrogi plant gwrywaidd dros blant benywaidd am amrywiaeth o resymau cymdeithasol ac economaidd.



Yr Athro Paul Chaney

Mae'r Athro Paul Chaney yn gyd-gyfarwyddwr WISERD, ac yn Athro Polisi a Gwleidyddiaeth yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ei waith ymchwil diweddaraf gyda'r Athro Sarbeswar Sahoo o Sefydliad Technoleg Indiaidd Delhi, yn archwilio safbwyntiau a phrofiadau sefydliadau cymdeithas sifil o ran hyrwyddo hawliau dynol, llywodraethu da a chyfiawnder cymdeithasol yn India. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn cael ei ariannu gan Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang yr Academi Gwyddorau Meddygol.

Am ragor o wybodaeth am waith yr Athro Paul Chaney, ewch i:

www.wiserd.ac.uk/paulchaney



NEWYDDION CANOLBWYNTIO AR YR ECONOMI

Arloesedd cymdeithasol yn yr economi sylfaenol



O'r chwith i'r dde: Yr Athro Karel Williams, Prifysgol Manceinion, Oriol Estela Barnet, PEMB a'r Athro Ian Rees Jones, Cyfarwyddwr WISERD

Yn ddiweddar, cynhaliodd WISERD golocwïwm rhyngwladol a ariannwyd gan yr ESRC ar Arloesedd Cymdeithasol yn yr Economi Sylfaenol yng Nghaerdydd a Glynebwy. Gwnaeth y digwyddiad dau ddiwrnod hwn dynnu ynghyd academyddion, gwleidyddion, gwneuthurwyr polisi, darparwyr gwasanaeth, ymarferwyr a chynrychiolwyr o'r trydydd sector i drafod a dadlau dros yr ymatebion radical i ansicrwydd economaidd ac anghyfarfartedd cymdeithasol.

Gwnaeth y digwyddiad roi cyfle i edrych ar ymatebion arloesol ar draws Ewrop a thrafod enghreifftiau o waith sy'n cael ei gyflawni mewn sectorau allweddol. Gwnaeth y

cynrychiolwyr hefyd ystyried sut mae safbwyntiau sylfaenol eisoes yn newid y dirwedd polisi yng Nghymru a nodi blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Gwnaethom groesawu Oriol Estela Barnet, cydlynnydd cyffredinol Cynllun Strategol Metropolitan Barcelona (Pla Estratègic Metropolità de Barcelona – PEMB) fel siaradwr y cyfarfod llawn, a rannodd ei waith ar gamau cyntaf Barcelona tuag at strategaeth sylfaenol.

Roedd uchafbwyntiau eraill yn cynnwys cyflwyniad ar y diwrnod cyntaf gan Mark Drakeford AC (Prif Weinidog Cymru bellach) ar Gymru gyfoes, a sesiynau panel ar yr ail ddiwrnod. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaeth am yr hyn y gall ac y dylai Aelodau'r Cynulliad ei wneud, ac ymunodd Aelodau Cynulliad eraill â ni, sef Hefin David, Vikki Howells, Adam Price a Lee Waters.

Sut gallai bargeinion dinesig wneud gwahaniaeth

Yn gynharach eleni, gwnaeth WISERD gydweithio ag Academi Morgan Prifysgol Abertawe i ddarparu symposiwm ar fargeinion dinesig, a ddaeth ag ymchwilwyr academiaidd ynghyd â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol a'r sector busnes.

Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghampws y Bae, Prifysgol Abertawe, ac roedd yn cynnig cyfle i drafod natur strategol bargeinion dinesig ac i ddysgu gan ymchwil ac ymarfer ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Gwnaeth y siaradwyr danlinellu goblygiadau polisi allweddol bargeinion dinesig, a wnaeth ysgogi trafodaeth am yr heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgîl y strwythurau newydd hyn.

Roedd y prif siaradwyr yn cynnwys yr Athro David Blackaby, Cyd-gyfarwyddwr WISERD, yn gwneud cyflwyniad ar economi Cymru, gan gynnwys gwaith ymchwil ar dâl yn y sector cyhoeddus. Hefyd yn bresennol oedd Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a drafododd 'Cymru ffyniannus' yng nghydestun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Yr Athro David Blackaby (Cyd-gyfarwyddwr WISERD, Prifysgol Abertawe)



Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

WISERD yn cyflwyno'r gwaith ymchwil diweddaraf ar ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru

Gwnaeth Cyd-gyfarwyddwr WISERD, yr Athro Chris Taylor, a Dr Nigel Newton gyflwyniad mewn digwyddiad addysg wedi'i noddi gan WISERD a Chymdeithas Ddysgedig Cymru ym mis Chwefror, i lansio adroddiad newydd gan Sefydliad Materion Cymreig ar oblygiadau diwygio'r cwricwlwm.

Yn dilyn adolygiad a gyflawnwyd gan yr Athro Graham Donaldson yn 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi dylunio cwricwlwm newydd ar gyfer plant rhwng tair a chwe blwydd oed; Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes. Mae ymchwilwyr addysg WISERD wedi chwarae rhan flaenllaw wrth archwilio beth mae diwygio'r cwricwlwm yn ei olygu mewn gwirionedd ar gyfer ysgolion a dysgwyr, drwy'r prosiect *Dyfodol Llwyddiannus i Bawb*.

Mae Dyfodol Llwyddiannus i Bawb yn ceisio ychwanegu gwerth at y gwaith a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru wrth werthuso cynnydd yr Ysgolion Arloesi wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Gwnaeth Dr Nigel Newton rannu diweddariad ar y prosiect hwn yn y digwyddiad, gan roi mewnwelediad gwerthfawr i obeithion a phryderon athrawon ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Mae ein gwaith ymchwil wedi canfod bod athrawon yn obeithiol iawn am y cwricwlwm newydd ond mae nifer o heriau i weithio drwyddynt. Mae hyn yn cynnwys ofn o beidio bod â digon o gymorth, pryderon am sut mae'r asesiad yn cael ei fesur, colli gwybodaeth sy'n benodol i bwnc, ac amrywioldeb rhwng ysgolion. Mae'r adroddiad newydd, Common Purposes: Implications of curriculum reform in Wales for Further Education, Higher Education, Skills and Business, yn ymgysylltu â chymunedau y tu

Yr Athro Chris Taylor
(Cyd-gyfarwyddwr
WISERD, Prifysgol
Caerdydd) a Kirsty
Williams, Gweinidog
Addysg Llywodraeth Cymru



hwnt i gatiâu'r ysgol, gan ofyn i gynrychiolwyr o gymunedau addysg bellach, addysg uwch, a sgiliau a busnes am eu hymgysylltiad â'r cwricwlwm newydd hyn yn hyn.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau o gyfweiliadau gyda chynrychiolwyr o'r un cymunedau yn yr Alban, lle mae diwygio cwricwlwm tebyg eisoes wedi digwydd. Rhagwelir y bydd ystyried y profiadau a'r gwersi a ddysgwyd gan Curriculum for Excellence yr Alban yn helpu Cymru i weithredu ei chwricwlwm newydd ei hun.

Mae Common Purposes hefyd yn nodi camau ymarferol i sicrhau bod camau gweithredu i ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru yn cael eu hintegreiddio a'u cefnogi gan gymunedau addysg bellach, addysg uwch, a sgiliau a busnes. Mae'n hanfodol fod sefydliadau y tu hwnt i ysgolion yn ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu a rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith i sicrhau ei fod wedi'i integreiddio'n dda â meysydd polisi eraill a'i fod yn darparu llwybr di-dor i ddysgwyr wrth iddynt symud yn eu blaen o addysg orfodol.

Yn y digwyddiad, gwnaeth yr Athro Chris Taylor gyflwyno sesiwn ochr yn ochr â Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru. Yn yr adroddiad, mae'r Athro Taylor yn esbonio mai datblygu cwricwlwm newydd i Gymru "yw'r diwygiad mwyaf i'r system addysg o bell ffordd ers datganoli yn 1999. Dyma hefyd fydd yr un mwyaf heriol."

Yn flaenorol, gwnaeth WISERD gynnal gwerthusiad annibynnol o bolisi addysg blynnydoedd cynnar y cyfnod sylfaen ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r Athro Taylor yn tanlinellu y bydd argymhellion o'r adolygiad hwn, ynghyd â'r rhai a amlinellwyd yn yr adolygiad Dyfodol Llwyddiannus gan yr Athro Graham Donaldson a'i dîm, o fudd i'r diwygiadau cyfredol.

Gwnaeth y digwyddiad dynnu ynghyd cynrychiolwyr o gymunedau addysg bellach, addysg uwch, a sgiliau a busnes yng Nghymru a'r Alban i rannu eu profiadau hyd yn hyn ac i drafod meysydd posibl ar gyfer gweithredu i sicrhau bod y cwricwlwm newydd mor effeithiol ag y bo'n bosibl i bobl ifanc ac i Gymru.

Mae plentyndod yng Nghymru yn newid, mae'n rhaid i wasanaethau yng Nghymru newid hefyd

Mae data newydd gan dros 10,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn datgelu'r pwysau mae bywyd modern yn eu rhoi ar eu hiechyd meddwl. Cynhaliodd Cydymaith Ymchwil WISERD Dr Rhian Barrance arolwg Beth Nawr, 2019 dros Gomisiynydd Plant Cymru. Casglodd yr arolwg ddata a fydd yn helpu i lywio cynllun gwaith tair blynedd newydd y Comisiynydd.

Canfu'r arolwg fod plant mor ifanc â saith mlwydd oed yn pryderu am y canlynol:

- 42% yn pryderu am brofion ysgol
- 40% yn pryderu am fwlio
- 27% yn pryderu am broblemau teuluol, gan gynnwys rhieni yn gwahanu, a bod 38% wedi gofyn i riant beidio â defnyddio ffôn clyfar yn eu presenoldeb

"Rwy'n pryderu y bydd fy nhad yn gadael ein teulu eto." (Merch, 10 oed)

"... oherwydd fyddant [fy rhieni] ddim yn gwrando arna i na dim byd, na diwallu fy anghenion pan fyddan nhw ar eu ffonau symudol." (Merch, 10 oed)

Roedd pobl ifanc, rhwng 11 a 18 oed, yn pryderu am y canlynol:

- 45% yn pryderu am waith ysgol / arholiadau
- 40% yn pryderu am eu bywydau ar ôl gadael yr ysgol
- 28% yn pryderu am sut maent yn edrych a'u llesiant / iechyd meddwl

"Yn gyffredinol, rwy'n pryderu am nifer o bethau o ddydd i ddydd." (Merch, 14 oed)

O ran y rhan fwyaf o gwestiynau ynghylch pryderon, fe wnaeth merched fynegi lefelau uwch o bryderon na bechgyn, ac fe wnaeth plant o gefndiroedd mwy difreintiedig fynegi lefel uwch o bryderon na'r rheiny o gefndiroedd mwy cefnog.

Gan wneud sylwadau ar y canfyddiadau, dywedodd Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru: "Rwyf wedi clywed y neges yn gwbl glir: mae pwysau

newydd bywyd modern yn cael effaith drom ar blant, hyd yn oed ein dinasyddion ieuengaf. Ni allwn barhau gyda'n systemau a'n llwybrau cymorth hirsefydledig – mae angen arnom strwythurau a gwasanaethau iechyd meddwl sydd wedi eu dylunio gydag anghenion plant a'u teuluoedd mewn golwg. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i wasanaethau cymdeithasol a thimoedd iechyd meddwl plant gael eu trefnu ar wahân ar gyfer teuluoedd sydd angen yr holl gymorth y gallant ei gael pan mae eu plant yn cael trafferthion iechyd meddwl. Ni ddylai fod 'drws anghywir' ar gyfer plant a'u teuluoedd sydd angen cymorth.

"Mae hyn yn dangos bod ffactorau a allai gael effaith negyddol ar iechyd meddwl ein plant ym mhobman. Mae'r modd yr ydym yn ymateb i hyn fel oedolion yn allweddol."

Gwnaeth tîm y Comisiynydd hefyd arolygu 585 o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc:

- Roedd 86% ohonynt yn pryderu am iechyd meddwl plant
- Roedd 81% ohonynt yn pryderu am effaith y cyfryngau cymdeithasol
- Roedd 82% ohonynt yn pryderu am broblemau teuluol

Gwnaeth dros 600 o rieni gymryd rhan a rhannu eu prif bryderon:

- Mae 74% yn pryderu am iechyd meddwl
- Mae 68% yn pryderu am fwlio
- Mae 60% yn pryderu am effaith y cyfryngau cymdeithasol

Ychwanegodd yr Athro Holland: "Cyn cynnal yr arolwg, roeddwn am ystyried y wybodaeth genedlaethol a gasglwyd eisoes ynghylch plant a phobl ifanc. Mae'r adolygiad hwnnw'n dangos bod rhai agweddau ar fywyd plant yn gwella, gan gynnwys meysydd iechyd megis llai o farwolaethau babanod, gwell iechyd deintyddol, llai o ysmegu ac yfed, a chyfraddau beichiogrwydd llawer is ymhlith merched yn eu harddegau. Ond mae rhai meysydd yn parhau i beri pryderon.

"Mae'r holl waith yma yn rhoi gwell darlun imi, ac eraill, o fywydau plant. Mae cael mynediad at y fath fanylder ynghylch yr hyn y mae plant, pobl ifanc a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt yn ei brofi ac yn poeni amdano yn rhoi cyfeiriad clir imi o ran yr hyn mae'n rhaid imi ei wneud i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael cyfle cyfartal i gyflawni'r gorau y gallant."

Mae cynllun tair blynedd newydd y Comisiynydd yn cynnwys manylion ynghylch uchelgais y tîm a meysydd gwaith penodol, gan gynnwys llunio ffyrdd newydd o fynd ati i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl i blant a sicrhau bod pobl ifanc ar draws y wlad yn cael cyfleoedd ystyrlon i fod yn ddinasyddion gwybodus sy'n chwarae rhan.



Gwaith ymchwil newydd yn cysylltu dadleuon teuluol ag ymgysylltiad dinesig

Gwnaeth yr Athro Sally Power, Cyfarwyddwr Addysg WISERD, gyflwyno canfyddiadau ymchwil ar ddadleuon teuluol yng Nghynhadledd Byd y Plentyn 2018 – 'Esgidiau Newydd, Cyfeiriad Newydd', ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r gwaith ymchwil hwn o brosiect ymchwil Canolfan Cymdeithas Sifil yr ESRC, 'Trosoglwyddo "rhinweddau dinesig" rhwng y cenedlaethau: rôl y teulu mewn ymgysylltiad cymdeithas sifil'.

Roedd cyflwyniad yr Athro Power, 'Dadleuon Teuluol: ynglŷn â beth a chyda phwy?', yn archwilio dadleuon o fewn teuluoedd – eu hachosion, amllder a chanlyniadau. Mae'r canfyddiadau yn deillio o arolwg o dros 900 o bobl ifanc rhwng 13 ac 14 oed yng Nghymru a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2016 a mis Mawrth 2017.

Mae'r arolwg yn cwmpasu achosion dadleuon ac yn archwilio pwy sy'n cymryd rhan a pha mor aml. Mae'r ymatebion yn dangos ar gyfer bechgyn a merched mai dau o brif achosion dadleuon o fewn y teulu oedd y defnydd o ffonau symudol neu dechnoleg a dyletswyddau'r cartref. Gwnaethant hefyd ddangos fod merched bron ddwywaith yn fwy

tebygol o gael dadleuon gyda'u mamau a'u tadau dros ddillad tra bod bechgyn ddwywaith yn fwy tebygol o ddadlau gyda'u mamau (nid eu tadau) ynglŷn â gwleidyddiaeth.

Mae'r arolwg yn tanlinellu bod y rhai sy'n cael mwy o ddadleuon yn fwy tebygol o fod yn weithredol yn y gymdeithas sifil. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y rhai a oedd yn dadlau 'gryn dipyn' o'i gymharu â'r rhai nad oedd byth yn dadlau yn fwy tebygol o fod wedi bod ynghlwm wrth sefydliad cymorth dyngarol neu hawliau dynol yn ystod y 12 mis diwethaf, yn aml wedi rhoi o'u hamser i helpu elusen neu achos, wedi cysylltu â gwleidydd neu'r cyfryngau, neu wedi llofnodi deiseb. Mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu y

gallai dadlau fod y ffordd y mae pobl ifanc yn meithrin sgiliau trafod ac ymresymu drwyddi, sydd yn ei dro yn eu galluogi i fod â lefelau uwch o ymgysylltiad dinesig, ac felly mae'n cwestiynu a yw'r safbwynt syml o ystyried dadlau yn rhywbeth negyddol yn gywir.

Roedd Cynhadledd Byd y Plentyn 2018 – 'Esgidiau Newydd, Cyfeiriad Newydd' yn anelu at ddod ag academyddion ac ymarferwyr ynghyd, i fframio cysyniadau newydd mewn arferion cydweithredol mewn astudiaethau plentynod yng nghyd-destun newidiadau cymdeithasol, deddfwriaethol a threfniadol.

"Gallai dadleuon fod yn ffordd y mae pobl ifanc yn caffael sgiliau dadlau ac ymresymu drwyddi, gan eu galluogi i fod â lefelau uwch o ymgysylltiad dinesig."



NEWYDDION DEALL Y CENEDLAETHAU

Sut mae gofal plant gan neiniau a theidiau yn effeithio ar y plentyn?

Yn sgil cynnydd mewn disgwyliad oes, mae mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn byw'n ddigon hir i gael perthnasau gyda'u hwyrion. Yn y DU, amcangyfrifwyd bod dros 80% o'r rhai sy'n 20 oed yn dal i fod ag o leiaf un nain neu daid sy'n dal yn fyw.

Nid yn unig y gall y neiniau a'r teidiau a'r wyrion hyn ddisgwyl mwy o flynyddoedd o oes a rennir, mae gan y perthnasau hyn y potensial i fod o ansawdd uwch nag oeddent yn y gorffennol. Mae neiniau a theidiau yn dueddol o fod yn iachach ac yn gyfoethocach nawr, gyda llai o wyrion i rannu'r adnoddau hyn rhyngddynt.

Ochr yn ochr â hyn, mae tueddiadau o ran cyfranogiad mamau yn y llafurlu wedi cynyddu'r galw am ofal plant ar gyfer plant sydd o oedran cyn ysgol. Er bod hyn wedi cynyddu nifer y plant sy'n mynychu lleoliadau gofal plant ffurfiol, mae'r ddarpariaeth hon yn aml yn brin a chodir crochris amdani. Yn wir, mae gan y DU rai o'r costau gofal plant uchaf yn Ewrop, sef yn fras £6,500 y flwyddyn ar gyfartaledd ar gyfer yr aelwyd. Nid yw'n syndod y bu cynnydd o ran y defnydd o ofal plant anffurfiol, yn arbennig ar gyfer plant ifanc iawn, nad oes hawl ganddynt eto i ddarpariaeth gofal plant ffurfiol am ddim.

Mae neiniau a theidiau, ac yn aml mam y fam, yn dueddol o ddarparu'r gofal plant anffurfiol hwn, gydag yn agos at hanner yr holl blant yn derbyn gofal gan nain neu daid ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd cyn ysgol. Mae'r rôl y mae neiniau a theidiau yn ei chwarae yn y cyd-destun hwn yn un cymhleth sy'n integreiddio rôl gofalwr gyda rolau eraill neiniau a theidiau, gan gynnwys mentor, ffrind a chwmni ar gyfer chwarae. Gallai manteision gofal neiniau a theidiau fod yr un mor gymhleth, gyda'r fantais amlwg i gyllideb yr aelwyd ond effaith lai syml ar ganlyniadau'r wyrion.

O ran gofal plant, mae'r gwaith ymchwil wedi tueddu i ganolbwyntio ar fanteision ac anfanteision cymharol gofal mam a gofal na ddaw gan y fam, yn ogystal â rhwng gofal ffurfiol ac anffurfiol o ran yr olaf. Dim ond yn ddiweddar y mae sylw wedi troi at rôl unigryw gofal neiniau a theidiau a'r effaith y gall hyn ei chael ar ganlyniadau gwybyddol, ymddygiadol a chymdeithasol eu hwyrion. O'r llenyddiaeth hon, mae darlun cymysg yn dod i'r amlwg.

O ran canlyniadau gwybyddol, mae plant sy'n derbyn gofal gan eu neiniau a theidiau yn ymddangos fel pe baent yn perfformio'n well o ran datblygu geirfa ond yn waeth ar fesurau deiriau a datblygu cysyniadau; maent yn well am enwi gwrthrychau ond yn waeth ar debygrwydd rhwng lluniau a phrofion parodrwydd ar gyfer yr ysgol.

Canfyddir hefyd fod gofal gan neiniau a theidiau hefyd yn gwella cyfathrebu a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, er bod rhai astudiaethau wedi darganfod cynnydd o ran lefelau o orfywiogrwydd ac anawsterau gyda chymheiriaid.

Mae'r berthynas rhwng gofal neiniau a theidiau a chanlyniadau ar gyfer yr wyrion yn cael ei chymhlethu ymhellach gan yr arwydd fod amllder y cyswllt â'r nain neu'r taid a statws cymdeithasol ac economaidd yr aelwyd yn effeithio ar faint dylanwad y nain neu'r taid.



Dr Jennifer Hampton

Mae Jennifer Hampton yn gynorthwydd ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd. Ar ôl derbyn ei PhD yn ddiweddar mewn Addysg oddi wrth Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, mae diddordebau ymchwil Jennifer yn cynnwys y defnydd o ddulliau meintiol uwch mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau yn y gwyddorau cymdeithasol. Mae ganddi ddiddordeb hefyd mewn methodoleg gymysg ac arloesedd methodolegol.

Am ragor o wybodaeth am waith Jennifer Hampton, ewch i www.wiserd.ac.uk/jenniferhampton

Mae'r llenyddiaeth sy'n bodoli yn archwilio effaith bosibl ac ymddangosiadol y berthynas rhwng neiniau a theidiau ac wyrion wedi tueddu i fabwysiadu dull ôl-syllol neu drawstoriadol. Mae ein hastudiaeth yn bwriadu ymestyn a datblygu ar y gwaith sy'n bodoli eisoes, gan ddefnyddio data a gasglwyd yn yr Astudiaeth Carfan y Mileniwm (MCS), sydd wedi bod yn dilyn sampl fawr o blant a aned yn y flwyddyn 2000. Rydym yn bwriadu gwneud defnydd llawn o natur hydredol yr astudiaeth i astudio effeithiau tymor byr, tymor canolog a hirdymor gofal plant gan neiniau a theidiau yn ystod y blynyddoedd cyn ysgol ar ganlyniadau o blentyndod cynnar i flaenlencyndod.

